WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2016 – **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**

Blwyddyn archwilio: 2016

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 122A2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gynhaliwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os derbynnir cais am wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r ddogfen hon, dylid cyfeirio at y Cod Ymarfer a gyhoeddir o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer o ddelio â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau lleol, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Yn achos y ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ail-ddefnyddio'r ddogfen hon at Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Y tîm sy'n gyfrifol am y gwaith hwn yw Ann-Marie Harkin, David Thomas, Stephen Lisle, Gillian Gillett a Mike Jones.

# Cynnwys


Mae'r trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd wedi gwella eto eleni ac er bod rheolaeth gadarn yn gyffredinol ar y sefyllfa ariannol, mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu'r risg o beidio cyflawni cydbwysedd ariannol

Adroddiad cryno

Cyd-destun 5

Canfyddiadau allweddol 6

Argymhellion 10

Adroddiad manwl

Rheolaeth ariannol – mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i reoli cyllidebu a monitro cynlluniau arbedion yn effeithiol, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu'r risg o beidio cyflawni cydbwysedd ariannol eleni 13

Cynlluniau ariannol – mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cynlluniau ariannol effeithiol ac mae cyllidebau'n cael eu llunio gan flaenoriaethau strategol, ond roedd y cynllun ariannol yn tybio cynnydd mewn cyllid nad oedd y comisiynwyr wedi'i gymeradwyo 13

Rheolaeth ariannol a stiwardiaeth – mae'n ymddangos bod rheolaethau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn yn gweithredu'n effeithiol er mwyn sicrhau stiwardiaeth briodol 15

Monitro ac adroddiadau ariannol – mae trefniadau adroddiadau ariannol yn darparu gwybodaeth gymharol gadarn i lywio penderfyniadau'r Bwrdd a chefnogi camau adferol pe byddai angen 16

Perfformiad ariannol – cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth yn erbyn ei thargedau ariannol yn 2015-16 ond mae'n wynebu'r risg o beidio cyflawni cydbwysedd ariannol eleni 17

Llywodraethu a sicrwydd – mae dull yr Ymddiriedolaeth o lywodraethu a darparu sicrwydd yn gadarn ar y cyfan ac yn gwella, er ein bod wedi nodi rhai meysydd pellach y mae angen eu gwella 19

Cynllunio ac adrodd strategol – mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) drwy gynyddu capasiti cynllunio a gwaith modelu gwell. Mae cyfle o hyd i atgyfnerthu'r gwaith o graffu ar gyflawniad yr IMPT ac integreiddio strategaethau amrywiol 19

Sicrwydd ac effeithiolrwydd y bwrdd a phwyllgorau - mae'r systemau sicrwydd yn effeithiol ar y cyfan ac er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da yn gwella effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau, mae rhywfaint o le i wella 24

Strwythur sefydliadol - mae'r Ymddiriedolaeth ar daith i sicrhau bod yr isadrannau yn cydweithio'n agosach ac mae'n cysylltu â Llywodraeth Cymru i egluro ei chylch gwaith llywodraethu ar gyfer cynnal Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru 33

Cynnydd wrth fynd i'r afael â materion o asesiadau strwythuredig blaenorol – mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael â materion o asesiadau strwythuredig blaenorol er ein bod wedi nodi problemau wrth olrhain argymhellion eleni 34

Atodiadau

Atodiad 1 – Ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i argymhellion 2016 40

# Adroddiad cryno

## Cyd-destun

1 Mae'r asesiad strwythuredig yn archwilio'r trefniadau yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) sy'n cefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Yn y blynyddoedd blaenorol, roedd y gwaith yn asesu cadernid y trefniadau rheolaeth ariannol, digonolrwydd y trefniadau llywodraethu, rheolaeth galluogwyr allweddol sy'n cefnogi defnydd effeithiol o adnoddau, a'r cynnydd a wnaed yn mynd i'r afael â materion gwella a nodwyd yn flaenorol.

2 Canfu ein gwaith yn 2015 bod Trefniadau i gefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus yn parhau i ddatblygu, gyda chynnydd da mewn nifer o feysydd. Mae'r rheolaeth ariannol yn gadarn ac er bod yr Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd yn mantoli'r gyllideb, mae heriau ariannol sy'n galw am sylw pellach.

3 Mae gwaith asesu strwythuredig yn 2016 wedi adolygu trefniadau rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth unwaith eto a'r cynnydd a wnaed yn mynd i'r afael ag argymhellion y flwyddyn flaenorol. Eleni, rydym wedi gwneud gwaith cymharol mewn tri maes. Mae'r meysydd a'r cwmpas dethol wedi'u hysbysu gan ein dadansoddiad o faterion sy'n berthnasol i Gymru gyfan a thrafodaethau gydag ysgrifenyddion y bwrdd. Mae'r meysydd o waith cymharol gan gynnwys:

- fformat cyflwyno adroddiadau ariannol i fyrddau;
- trefniadau ar gyfer datblygu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTP) a monitro ac adrodd ar y gwaith o ddarparu'r cynlluniau hyn[1];
- dulliau ar gyfer mapio risgiau a sicrwydd a datblygu fframwaith sicrwydd y bwrdd[2].

4 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau archwilio lleol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth. Wrth gwblhau'r adroddiad archwilio lleol, byddwn yn cwblhau dadansoddiad ar lefel Cymru gyfan ar y tri maes gwaith cymharol, i'w rannu gyda sefydliadau'r GIG a fforymau perthnasol ar lefel Cymru gyfan, gan gynnwys cyfarwyddwyr cyllid, cyfarwyddwyr cynllunio a grwpiau ysgrifenyddion byrddau. Rydym yn gobeithio y bydd y dull hwn yn cefnogi dysgu, drwy rannu dulliau gweithredu ac arfer da ar draws sefydliadau'r GIG. Byddwn yn cyhoeddi ein dadansoddiad cymharol o ddatblygu ac adrodd ar yr IMTP ochr yn ochr ag adroddiad cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar Ddeddf Cyllid Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, i'w cyhoeddi ddechrau 2017.

[1] Pan nad oes IMTP cymeradwy, rydym wedi ystyried y cynllun blynyddol.

[2] Mae fframwaith sicrwydd y bwrdd yn nodi'r risgiau ar gyfer cyflawni amcanion corfforaethol, y rheolaehtau mewnol ar gyfer lliniaru'r risgiau hynny a'r sicrwydd sydd ei angen ar y bwrdd i wybod bod y rheolaethau yn effeithiol a bod risgiau'n cael eu rheoli.

5 Rydym wedi seilio ein canfyddiadau ar gyfweliadau, arsylwadau pwyllgorau, adolygiadau o ddogfennau a data perfformiad, ffurflenni gwybodaeth gan ysgrifenyddion y bwrdd a chyfarwyddwyr cynllunio a chanlyniadau arolwg o aelodau'r Bwrdd. Ar draws Cymru gyfan, ymatebodd tua 119 aelod o Fyrddau i ymateb i'n harolwg, cyfradd ymateb o 59%. Roedd hyn yn cynnwys wyth ymateb (cyfradd ymateb 50%) gan yr Ymddiriedolaeth. Hoffwn ddiolch i'r rhai a ymatebodd i'n harolwg am eu hamser a'u mewnbwn.

# Canfyddiadau allweddol

6 Ein casgliad cyffredinol o waith asesiad strwythuredig 2016 yw bod trefniadau llywodraethu a sicrwydd wedi gwella unwaith eto eleni, ac er bod y dulliau rheolaeth ariannol yn parhau i fod yn gadarn ar y cyfan, mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu'r risg o beidio cyflawni cydbwysedd ariannol. Rydym wedi crynhoi'r rhesymau sy'n sail i'r casgliad hwn isod.

## Rheolaeth ariannol

7 Wrth adolygu trefniadau cynllunio a rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth, fe wnaethom ganfod bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbedion yn effeithiol, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu'r risg o beidio cyflawni cydbwysedd ariannol.

### Cynllunio ariannol

8 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cynllunio ariannol effeithiol ac mae cyllidebau'n cael eu llywio gan flaenoriaethau strategol ond roedd y cynllun ariannol yn rhagdybio cynnydd mewn cyllid nad oedd y comisiynwyr wedi'i gymeradwyo. Mae rolau a chyfrifoldebau cynllunio ariannol yn glir ac mae'r cyllidebau'n cael eu llywio gan IMTP cymeradwy'r Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016-17 i 2018-19. Fodd bynnag, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi nodi cynlluniau arbedion y tu hwnt i 2018-19.

### Rheolaeth ariannol a stiwardiaeth

9 Ymddengys bod rheolaethau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn wedi gweithredu'n effeithiol i sicrhau stiwardiaeth briodol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith rheolaeth ariannol clir, ac mae'r Pwyllgor Archwilio ac Archwilio Mewnol yn cyfrannu'n weithredol iddo. Ni wnaeth ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol 2015-16 nodi unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau ariannol yr Ymddiriedolaeth.

### Monitro ac adroddiadau ariannol

10 Mae'r trefniadau adroddiadau ariannol yn darparu gwybodaeth gymharol gadarn er mwyn i'r bwrdd wneud penderfyniadau a chefnogi camau adferol os bydd angen. Mae adroddiadau mewnol ac allanol yn gyson ac mae'r gwaith o gyflwyno adroddiadau ariannol i'r Bwrdd wedi'i strwythuro'n dda. Mae cyfle pellach i wneud gwelliannau, er enghraifft drwy gynnwys naratif er mwyn darparu dealltwriaeth a dadansoddiad pellach o'r materion sylfaenol.

### Perfformiad ariannol

11 Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyflawni yn erbyn ei dargedau ariannol yn 2015-16 ond mae'n wynebu'r risg o beidio cyflawni cydbwysedd ariannol eleni. Mae sefyllfa gyffredinol yr Ymddiriedolaeth yn cuddio'r sefyllfaoedd ariannol gwahanol yn ei hisadrannau craidd. Ym marn yr Ymddiriedolaeth, mae'r diffyg cronedig yn y ganolfan ganser yn deillio o bwysau costau heb eu hariannu dros y pum mlynedd ddiwethaf.

## Llywodraethu a sicrwydd

12 Wrth adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol a sicrwydd y bwrdd, canfuom fod dull llywodraethu a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth yn gyffredinol gadarn ac yn gwella, er ein bod wedi nodi rhai meysydd pellach y mae angen eu gwella.

### Cynllunio ac adroddiadau strategol

13 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) drwy gynyddu capasiti cynllunio a gwaith modelu gwell. Mae cyfle o hyd i atgyfnerthu'r gwaith o graffu ar y ffordd y darperir yr IMPT ac i integreiddio strategaethau amrywiol. Wrth lunio'r casgliad hwn, fe ganfuwyd:

- **datblygiad yr IMTP:** mae'r gwaith o ddatblygu'r IMPT yn ceisio sicrhau ei fod yn gynhwysol ac yn canolbwyntio o'r bôn i'r brig, ac mae aelodau'r Bwrdd yn credu bod y broses IMPT wedi arwain at welliannau i ddull cynllunio'r Ymddiriedolaeth.
- **integreiddio'r IMTP a chynlluniau eraill:** mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn ymwneud â swm mawr o waith datblygu strategaeth eleni. Dywedodd rhai aelodau staff wrthym fod angen i'r Ymddiriedolaeth wneud mwy i gysylltu'r datblygiadau strategol amrywiol hyn.
- **rolau a chyfrifoldebau mewn cysylltiad â'r IMTP:** mae gan yr Ymddiriedolaeth rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir mewn cysylltiad â'r IMTP. Drwy gynnwys trafodaeth ar yr IMTP ym mhob arfarniad blynyddol, mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio ymgorffori'r IMTP fel rhan hollbwysig o waith yn y sefydliad.

- **craffu ar gyflwyno'r IMTP:** roedd ein harsylwadau yng nghyfarfod Bwrdd a phwyllgorau Felindre yn dangos bod y gwaith o gyflwyno'r IMTP yn parhau i fod yn gyfyngedig o ran amser a manylder.
- **cyflwyno newid strategol:** mae newidiadau ar raddfa fawr yn dechrau dod yn fwy cyffredin yn Felindre. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau'r gwaith o gyflwyno argymhelliad y llynedd yn llawn am asesu risgiau a digonolrwydd y gallu i gyflwyno newidiadau. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried cyflwyno hyfforddiant a dull safonol o reoli rhaglenni.

## Sicrwydd ac effeithiolrwydd y bwrdd a'r pwyllgorau

14 Mae'r system sicrwydd yn gyffredinol effeithiol ac er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da yn gwella effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau, mae cyfle pellach i wneud gwelliannau. Nodir y rhesymau dros y casgliad hwn isod.

15 **System sicrwydd y bwrdd**: mae'r dull a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth i gynllunio ei system sicrwydd yn ymddangos yn gyffredinol effeithiol er y gellir sicrhau buddiannau pellach drwy ddilyn dull mapio sicrwydd mwy systemataidd. Lluniwyd y casgliad hwn gennym oherwydd:

- er bod gan yr Ymddiriedolaeth broses gyffredinol effeithiol ar gyfer pennu amcanion corfforaethol, byddem wedi hoffi gweld dull mwy systemataidd yn cael ei ddefnyddio i fapio a rheoli'r risgiau a'r bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r amcanion corfforaethol hyn.
- er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da i wella'r dull o reoli risgiau, mae angen i'r Ymddiriedolaeth egluro'r broses ar gyfer cau risgiau i lawr. Mae angen iddi hefyd fanteisio ar y gwaith archwiliad mewnol sydd ar y gweill i archwilio ymhellach i effeithiolrwydd uwchgyfeirio risgiau o lefel is-adrannol i lefel gorfforaethol. Gallai'r Ymddiriedolaeth elwa hefyd drwy ddysgu gan gyrff iechyd eraill, lle mae gwaith rheoli risg yn canolbwyntio ar risgiau gweithrediadol yn ogystal â'r risgiau o gyflawni amcanion corfforaethol/strategol y sefydliad.
- er bod yr Ymddiriedolaeth wedi nodi ei fwriad i bwyllgorau asesu eu heffeithiolrwydd eu hunain bob blwyddyn, nid yw pob pwyllgor yn cynnal yr hunanasesiadau hyn.

16 **Effeithiolrwydd y bwrdd a phwyllgorau**: mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da gyda'r materion a godwyd yn flaenorol gennym. Nodwyd cyfle pellach gennym hefyd i wella gweithrediad rhai pwyllgorau. Lluniwyd y casgliad hwn gennym oherwydd:

- mae aelodau'r bwrdd yn credu bod diwylliant agored yn yr Ymddiriedolaeth, er bod angen gwaith pellach i gydymffurfio â Chylchlythyr Iechyd Cymru yn ddiweddar ar adrodd cyhoeddus tryloyw;
- er nad oes gennym unrhyw bryderon penodol ynghylch defnydd yr Ymddiriedolaeth o sesiynau preifat ar gamera, dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i adolygu'r dull hwn;
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau pendant i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gennym y llynedd ynglŷn â chynllunio olyniaeth y Bwrdd a rheoli perfformiad;
- yn dilyn adborth ar ein canfyddiadau interim, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau cadarnhaol i atgyfnerthu'r defnydd o adroddiadau ar y prif bwyntiau yn y pwyllgorau;
- mae ein hadroddiad manwl yn nodi rhai o'r ffyrdd penodol y gall rhai o'r pwyllgorau wella'r ffordd maent yn gweithio.

## Strwythur sefydliadol

17 Mae'r Ymddiriedolaeth ar daith i sicrhau bod yr is-adrannau'n cydweithio'n agosach ac mae'n cysylltu â Llywodraeth Cymru i egluro ei chylch gwaith llywodraethu ar gyfer cynnal Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Wrth lunio'r casgliad hwn, canfuwyd bod:

- yr Ymddiriedolaeth wedi cymryd y cam cadarnhaol o gynnal cyfarfodydd y Bwrdd yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru (GGC) yn ogystal ag ym mhencadlys yr Ymddiriedolaeth;
- gan y staff safbwyntiau cymysg ynghylch y lefelau integreiddio presennol rhwng is-adrannau'r Ymddiriedolaeth;
- yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau a gweithdai traws-sefydliadol gyda'r nod o wella'r gwaith ar draws yr is-adrannau;
- mae'r trefniadau ar gyfer cynnal cyrff yn Felindre yn parhau i fod yn gymhleth ac eleni mae'r trefniadau wedi parhau i newid. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cysylltu â Llywodraeth Cymru i weithio at sicrhau mwy o eglurder o ran cyfrifoldebau cynnal Felindre ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

### Cynnydd wrth fynd i'r afael â materion o asesiadau strwythuredig blaenorol

18 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael â'r materion o'r asesiadau strwythuredig blaenorol er ein bod yn nodi bod problemau eleni yn olrhain argymhellion yr archwiliad. Wrth lunio'r casgliad hwn, canfuwyd:

- **partneriaethau:** mae'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau'r gwaith o gyflwyno ein hargymhelliad blaenorol ar bartneriaethau. Serch hynny, mae perthynas yr Ymddiriedolaeth â'i chomisiynwyr wedi dod i'r amlwg eleni fel risg allweddol.
- **olrhain argymhellion archwiliad:** er bod gan yr Ymddiriedolaeth broses glir ar gyfer olrhain y gwaith o weithredu argymhellion drwy Gynllun Gweithredu Archwiliad y Pwyllgor Archwilio, eleni cafwyd problemau yn sgîl peidio darparu diweddariadau ar gamau gweithredu rheoli i'r Pwyllgor Archwiliad mewn ffordd amserol.
- **datblygiad y gweithlu a datblygu sefydliadol:** mae'r strategaeth Datblygu Sefydliadol (DS) yn ddatblygiad pwysig o bosibl i'r Ymddiriedolaeth. Mae absenoldeb oherwydd salwch yn parhau i fod yn broblem er bod mwy o staff yn derbyn arfarniadau blynyddol yn awr. Mae oedi wrth recriwtio yn rhoi rhywfaint o bwysau ychwanegol ar staff.
- **technoleg a rheoli gwybodaeth:** mae asesiad risg ein tîm archwilio TG wedi amlygu nifer o risgiau eleni o ran adnoddau, rheoli risg, newid arweinyddiaeth a phrif system TG canser.

# Argymhellion

19 Mae'r argymhellion a oedd yn deillio o waith asesiad strwythuredig 2016 wedi'i gynnwys yn Arddangosyn 1. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth barhau i ganolbwyntio hefyd ar weithredu argymhellion 2015 nad ydynt wedi'u cyflawni eto.

20 Bydd ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth ar sut y mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn yn cael eu cynnwys yn Atodiad 1 ar ôl iddynt gael eu cwblhau a'u hystyried gan y pwyllgor perthnasol.

## Arddangosyn 1: argymhellion 2016

Mae'r tabl canlynol yn nodi argymhelliad asesiad strwythuredig 2016.

| **Argymhellion 2016** | |
|---|---|
| **Adroddiadau ariannol** | |
| A1 | Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu cynnwys ei adroddiadau ariannol i'r Bwrdd. Dylai'r adolygiad ystyried a fyddai mantolen monitro gwybodaeth, crynodeb o'r risgiau a'u heffaith bosibl a gorwariant sy'n gysylltiedig â dadansoddiad o'r materion sylfaenol yn darparu dealltwriaeth well. |
| **Hunanasesiadau llywodraethu pwyllgorau** | |
| A2 | Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod holl bwyllgorau'r Bwrdd yn cynnal hunanasesiad blynyddol o'u heffeithiolrwydd. |
| **Tryloywder adroddiadau cyhoeddus** | |
| A3 | Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cydymffurfio â holl ofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2016/22 ar adroddiadau cyhoeddus tryloyw. |
| **Gweithrediad pwyllgorau** | |
| A4 | Dylai'r Ymddiriedolaeth gynnal asesiad adlewyrchol o'i ddefnydd o sesiynau pwyllgor Rhan B ar gamera. Dylai'r asesiad ganolbwyntio ar yr eitemau ar yr agenda sy'n cael eu hystyried mewn sesiynau Rhan B ac a fyddai'n fwy priodol ystyried yr eitemau hyn yn gyhoeddus. |
| A5 | Yn seiliedig ar hunanasesiad ac adolygiad o'r cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu, dylai'r Ymddiriedolaeth gynhyrchu cynllun gydag amserlen benodol ar gyfer egluro rôl ac atgyfnerthu effeithiolrwydd y pwyllgor. |
| A6 | Hwyluso presenoldeb gwell ac ymgysylltiad ehangach yng nghyfarfodydd pwyllgorau, yn ogystal â lleihau'r amser a'r costau sy'n gysylltiedig â theithiau staff, dylai'r Ymddiriedolaeth bennu targed penodol ar gyfer cynyddu'r defnydd o gyfleusterau fideo gynadledda. |
| **Rheoli risg** | |
| A7a | Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu ei phroses a'i chyfrifoldebau dros gau i lawr y risgiau hynny sy'n ymddangos ar y gofrestr risg gorfforaethol. |
| A7b | Dylai'r Ymddiriedolaeth ddefnyddio'r archwiliad mewnol sydd ar y gweill ar reoli risg i sicrhau barn fanwl ar effeithiolrwydd uwchraddio risgiau o lefel is-adrannol i lefel gorfforaethol. |
| A7c | Dylai'r Ymddiriedolaeth safoni fformat ei chofrestrau risg amrywiol, a sicrhau bod elfennau arfer da pob cofrestr yn cael eu lledaenu ar draws y sefydliad cyfan. |
| **Fforwm Partneriaeth Lleol** | |
| A8 | Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu cylch gwaith a chylch gorchwyl y Fforwm Partneriaeth Lleol, o ystyried bod grwpiau partneriaeth lefel is-adrannol yn darparu fforwm gwell ar gyfer ymgysylltu ag undebau. |

| Argymhellion 2016 | |
|---|---|
| **Olrhain argymhellion archwiliadau** | |
| A9 | Dylai'r Pwyllgor Archwilio atgyfnerthu'r gwaith craffu ar ymatebion rheolwyr i adroddiadau archwilio, i sicrhau bod y camau gweithredu a gynigir yn berthnasol a bydd yn datrys y materion y cyfeirir atynt yn yr argymhellion hyn. |
| **Llywodraethu Gwybodaeth** | |
| A10 | Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ganddi Uwch Swyddog Rheoli Gwybodaeth a enwyd. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd wedi gwella eto eleni ac er bod rheolaeth ariannol yn parhau i fod yn gyffredinol gadarn, mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu'r risg o beidio cyflawni cydbwysedd ariannol

### Rheolaeth ariannol – mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i reoli cyllidebau a monitro cynlluniau arbedion yn effeithiol, ond mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu'r risg o beidio cyflawni cydbwysedd ariannol eleni

21 Mae ein gwaith yn asesiadau strwythuredig yn 2016 wedi ystyried y camau mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cymryd i gyflawni cydbwysedd ariannol a chreu cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hwy. Rydym wedi asesu sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth, y dull o gynllunio ariannol, rheolaethau ariannol a stiwardiaeth, a'r trefniadau ar gyfer monitro ac adroddiadau ariannol. Rydym hefyd wedi ystyried y cynnydd a wnaed yn mynd i'r afael â'r argymhellion blaenorol ynglŷn â rheolaeth ariannol. Nodir ein canfyddiadau isod.

#### Cynllunio ariannol - mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cynllunio ariannol effeithiol ac mae cyllidebau'n cael eu llywio gan flaenoriaethau strategol, ond roedd y cynllun ariannol yn tybio cynnydd mewn cyllid nad oedd y comisiynwyr wedi'i gymeradwyo

22 Mae Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 (y Ddeddf) yn darparu hyblygrwydd ariannol i fyrddau iechyd drwy ganiatáu iddynt gydbwyso eu hincwm a'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd, yn hytrach na phob blwyddyn. Mae hefyd yn ofynnol i fyrddau iechyd baratoi a sicrhau cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer IMTP dreigl tair blynedd. Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru 2016/054 yn cymhwyso'r un blaenoriaethau i Ymddiriedolaethau GIG o dan bwerau Deddf y GIG (Cymru) 2006.

23 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni ei hail ddyletswydd ariannol a chyflwynodd IMTP tair blynedd cymeradwy ar gyfer y cyfnod 2015-16 i 2017-18. Mae ei chynllun ar gyfer 2016-17 i 2018-19 hefyd wedi derbyn cymeradwyaeth Gweinidogol.

24 Mae gan yr Ymddiriedolaeth fframwaith cynllunio cyllidebau ar gyfer pennu cyllideb refeniw a chyfalaf sy’n nodi rolau a chyfrifoldebau yn glir. Mae’r fframwaith hwn yn nodi’r egwyddorion cynllunio ariannol allweddol a’r amserlen lefel uchel ar gyfer y cylch cynllunio ariannol. Wrth baratoi’r gyllideb sylfaenol, mae’r Ymddiriedolaeth yn treiglo ymlaen o’r flwyddyn ariannol ac yn gwneud addasiadau ar gyfer unrhyw newidiadau perthnasol y cytunwyd arnynt gyda’r cyfarwyddwyr adrannol a chorfforaethol ac ystyried unrhyw gyllid ychwanegol yn cynnwys chwyddiant cyflogau. Yna mae’r Ymddiriedolaeth yn ceisio llenwi’r bwlch yn y gyllideb sy’n weddill drwy ei chynlluniau gwella costau. Caiff terfynau rheoli gwariant eu dirprwyo i gyfarwyddiaethau sy’n gyfrifol am baratoi eu cynlluniau ariannol eu hunain o fewn y terfynau hyn, mewn cydweithrediad â deiliaid cyllidebau a chlinigwyr. Adroddir ar y cynnydd wrth ddatblygu’r gyllideb i’r Bwrdd a gwneir gwaith craffu, yn arbennig ar ddatblygu cynlluniau gwella costau.

25 Mae’r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ddatblygu ei chynlluniau ariannol er mwyn cyflawni blaenoriaethau strategol, cydbwysedd ariannol ac i gyflawni mesurau ansawdd a chanlyniad. Nododd y cynllun ariannol tair blynedd ar gyfer 2016-17 i 2018-19 ofyniad i gyflawni cyfanswm o £4.2 miliwn o arbedion dros y tair blynedd, a oedd yn galluogi’r Ymddiriedolaeth i ragweld sefyllfa o fantoli’r gyllideb rhwng ei hincwm a’i gwariant ar gyfer pob un o’r tair blynedd sy’n cael eu cwmpasu gan y cynllun. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau arbedion blynyddoedd yn y dyfodol wedi’u nodi hyd yma.

26 Roedd y cynllun ariannol ar gyfer 2016-17 yn ymgorffori cynnydd ariannol o £1.4 miliwn i’r cytundeb hirdymor rhwng yr Ymddiriedolaeth a’i chomisiynwyr mewn cysylltiad â Chanolfan Ganser Felindre (CGF). Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi seilio’r cynnydd hwn ar y cynnydd canran i’r cyllid twf a dderbyniwyd gan y byrddau iechyd yn 2015-16. Fodd bynnag, nid oedd comisiynwyr yr Ymddiriedolaeth wedi cytuno yn ffurfiol ar y cynnydd i’r cyllid pan ysgrifennwyd y cynllun (gweler paragraff 41 am fanylion pellach).

27 Roedd y cynllun ariannol hefyd yn cynnwys gofyniad i sicrhau arbedion o £1.2 miliwn ar gyfer 2016-17 a oedd wedi cynyddu i £1.6 miliwn erbyn y trydydd mis, er mwyn ystyried pwysau ychwanegol a nodwyd. Mae trefniadau priodol ar waith ar y cyfan i nodi arbedion posibl ar ddechrau’r flwyddyn ariannol, sy’n destun craffu a her. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y targedau ar gyfer y ganolfan ganser yn ddangosol, a bod angen gwaith pellach arnynt. Mae gallu nodi arbedion rheolaidd y gellir eu cyflawni yn y ganolfan ganser yn parhau i fod yn her, yn rhannol oherwydd pwysau costau heb eu hariannu yn y pum mlynedd ddiwethaf, sy’n golygu bod angen ildio arbedion posibl o swyddi gweigion er mwyn darparu gwasanaethau hanfodol.

28 Mae’r Ymddiriedolaeth yn parhau i wynebu heriau wrth nodi arbedion rheolaidd tymor hwy ac mae ganddi waith pellach i’w wneud i weithredu ein hargymhelliad o 2015. Mae Arddangosyn 2 yn disgrifio’r cynnydd a wnaed hyd yma.

Arddangosyn 2: cynnydd ar argymhelliad rheolaeth ariannol 2015

Mae'r tabl yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhelliad 2015 ynglŷn â rheolaeth ariannol.

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **2015 S5: Rheolaeth Ariannol**<br>Dylai'r Ymddiriedolaeth leihau ei dibyniaeth ar arbedion nad ydynt yn rheolaidd a nodi cynlluniau tymor hwy ar gyfer sicrhau arbedion ac arian. | **Gwnaed rhywfaint o waith ond mae angen gwneud mwy o waith**<br>Mae nifer o arbedion rheolaidd wedi'u nodi, yn arbennig yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru. Fodd bynnag, mae'r IMTP yn nodi'r gofynion o ran arbedion am gyfnod tair blynedd y cynllun ond nid yw cynlluniau arbedion tymor hwy wedi'u nodi hyd yma. |

Rheolaeth ariannol a stiwardiaeth – Mae'n ymddangos bod rheolaethau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn yn gweithredu'n effeithiol er mwyn sicrhau stiwardiaeth briodol

29 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gynnal fframwaith clir o rolau a chyfrifoldebau. Caiff hyn ei ategu gan gyfarwyddiadau ariannol sefydlog, archebion sefydlog, a chynllun dirprwyo yr ydym yn ei hadolygu yn rheolaidd ac sy'n cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio. Byddai unrhyw wyriadau yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio, mae archebion sefydlog a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog sy'n cael eu hepgor yn eitemau sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Archwilio.

30 Mae'r Ymddiriedolaeth yn asesu'r risgiau o golledion ariannol mewn cydweithrediad â swyddog Gwrth-dwyll Lleol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bolisïau Gwrth-dwyll a Chwythu'r Chwiban ar waith ac mae risgiau'n cael eu lliniaru drwy gynllun gwaith gwrth-dwyll blynyddol. Mae cynnydd yn erbyn y cynllun hwn ac unrhyw golledion a nodir yn cael eu hadrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio.

31 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyfrannu'n weithredol at fframwaith rheolaeth ariannol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Pwyllgor yn cwrdd bob deufis ac yn adolygu ei archebion sefydlog yn ffurfiol, gan gynnwys cyfarwyddiadau ariannol sefydlog (gweler paragraff 102 am ragor o fanylion). Mae'n ofynnol i reolwyr cyfrifol fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio pan nad oes cynnydd wedi'i wneud neu os bydd y gwasanaeth Archwiliad Mewnol yn datgan sicrwydd cyfyngedig.

32 Mae'r gwasanaeth Archwiliad Mewnol yn adolygu systemau ariannol yr Ymddiriedolaeth a'r rhai sy'n cael eu rheoli gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac mae'n adolygu systemau eraill yn gylchol, yn seiliedig ar lefelau risg. Cadarnhaodd y gwasanaeth Archwilio Meddwl bod system rheolaeth ariannol fewnol sy'n gyffredinol gadarn ar waith. Mae gan yr Ymddiriedolaeth brofiad profedig o weithredu argymhellion ar gyfer gwella sy'n cael eu nodi drwy Archwiliad Mewnol.

## Monitro ac adroddiadau ariannol – mae trefniadau adroddiadau ariannol yn darparu gwybodaeth gymharol gadarn i lywio penderfyniadau'r Bwrdd a chefnogi camau adferol pe byddai angen

33 Mae rheolaeth ariannol effeithiol yn bwysig os yw cyrff iechyd am gyflawni canlyniadau iechyd, gwasanaethau a gwerth am arian gwell. Er mwyn canolbwyntio ymdrechion yn briodol a gwneud penderfyniadau da, mae angen i gyrff y GIG sicrhau bod ganddynt wybodaeth ariannol gadarn a dehongliad craff o berfformiad ariannol y sefydliad, sydd wedi'i gysylltu'n glir ag amcanion a pherfformiad yn erbyn yr amcanion hynny, o fewn cyd-destun strategol.

34 Mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro ei sefyllfa ariannol bob mis yn unol â'i hamserlen adrodd fisol. Mae'r adran gyllid yn cwblhau ei phroses adrodd diwedd y mis o fewn pum diwrnod gwaith i ddiwedd y mis, a chyflwynir ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru erbyn diwrnod naw bob mis. Mae adroddiadau ariannol yn cael eu hystyried yn fisol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Gweithredol, y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformio a chyfarfodydd y Bwrdd.

35 Gan ddefnyddio offer Swyddfa Archwilio Cymru a Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli[3] , rydym yn asesu fformat adroddiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd, o'u cymharu ag adroddiadau cyrff iechyd eraill yng Nghymru. Canfu ein hadolygiad o'r adroddiad cyllid mis dau eu bod wedi'u strwythuro'n dda a bod y wybodaeth ynddynt yn gyson a dibynadwy. Roedd yr adroddiad yn hawdd ei ddarllen ac yn cynnwys dangosfwrdd a sgorau coch-melyn-gwyrdd ar gyfer targedau ariannol allweddol. Roedd crynodeb o bob maes yn deillio o'r dangosfwrdd. Wrth ein cymharu â chyrff eraill y GIG, canfuwyd bod fformat adroddiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn darparu adroddiadau cryfach ar:

- sefyllfaoedd refeniw a chyfalaf yn ystod y flwyddyn;
- nodi targedau arbedion a chynnydd yn eu herbyn.

36 Nodwyd cyfle i wella amseroldeb adroddiadau'r Bwrdd oherwydd cyflwynwyd adroddiad ariannol mis dau i'r Bwrdd ar 2 Gorffennaf 2016, 32 diwrnod ar ôl i'r cyfnod adrodd ddod i ben. Nodwyd cyfleoedd hefyd gennym i atgyfnerthu rhai agweddau ar adroddiadau ariannol. Er enghraifft, gellir defnyddio tueddiadau a graffiau i grynhoi neu amlygu materion allweddol yn fwy effeithiol, gellir cynnwys gwybodaeth fonitro ar y fantolen yn ogystal â chrynodeb o'r risgiau a'u heffaith bosibl ar alldro. Er bod meysydd allweddol o orwariant yn cael eu nodi, ychydig iawn o naratif a ddarperir i ddarparu treiddgarwch drwy ei gysylltu i ddadansoddiad o'r materion sylfaenol, er enghraifft, gweithgarwch, y ffactorau sy'n rheoli costau a darparu gwasanaethau.

[3] https://www.nao.org.uk/report/reporting-financial-information-to-the-board-2/ and http://www.cimaglobal.com/Documents/ImportedDocuments/tech_techrep_in_year_fin_forecasting_in_NHS_0807.pdf

37 Mae gweithwyr clinigol a gwasanaeth yn ymgysylltu'n llawn yn y broses adrodd a monitro. Cyflwynir adroddiadau cyllid rheolaidd i ddeiliaid cyllidebau. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu cynhyrchu bob mis ac yn dilyn trafodaethau gyda rheolwyr cyllid, maent yn cael eu cyfuno mewn adroddiadau cyllid adrannol a'u defnyddio i adrodd i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru. Canfuwyd gennym bod adroddiadau mewnol ac allanol yn gyson ac roedd achosion sylfaenol unrhyw amrywiadau yn cael eu nodi, adroddwyd arnynt a gweithredir arnynt.

38 Roedd datblygu cynlluniau adrannol yn cael ei arwain gan glinigwyr ac mae cynlluniau arbedion yn destun adolygiad a her gan Dimau Rheoli'r Gyfarwyddiaeth cyn eu hymgorffori mewn cynlluniau ariannol a bod yn destun craffu pellach gan y Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad a'r Bwrdd. Mae cynnydd yn erbyn cyflawni'r arbedion yn cael ei fonitro yn fisol ar bob lefel yn yr Ymddiriedolaeth. Mae gan y ganolfan canser Fwrdd Cynaliadwyedd, sy'n gyfrifol am oruchwylio rheolaeth ariannol y ganolfan ganser ac mae'n monitro'r gwaith o gyflawni'r arbedion yn weithredol.

## Perfformiad ariannol – cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth yn erbyn ei thargedau ariannol yn 2015-16 ond mae'n wynebu'r risg o beidio cyflawni cydbwysedd ariannol eleni

39 Mae gan yr Ymddiriedolaeth lwyddiant blaenorol o gyflawni ei thargedau ariannol, gan gyflawni cydbwysedd ariannol yn 2015-16, fel yn y blynyddoedd blaenorol. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn hunan-ddibynnol ac wedi cyflawni yn ôl y bwriad, heb unrhyw gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, mae'r sefyllfa gyffredinol yn cuddio sefyllfaoedd ariannol gwahanol yn ei his-adrannau. Er bod y cyllidebau wedi'u pennu i adlewyrchu sefyllfa o gydbwyso'r gyllideb ym mhob isadran, fe gydnabu'r Ymddiriedolaeth yn gynnar yn y flwyddyn y byddai CGF ac y byddai GGC yn tanwario.

40 Roedd strategaeth ariannol 2015-16 yn cynnwys gofyniad o £3.636 miliwn o arbedion. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth ei bod wedi cyflawni £2.65 miliwn (73%) o'r arbedion hyn. Roedd yr arbedion na lwyddwyd i'w cyflawni yn ymwneud yn bennaf ag ansawdd gwasanaethau ac adolygiadau effeithlonrwydd yng Nghanolfan Ganser Felindre. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod natur reolaidd yr arbedion nas cyflawnwyd wedi creu pwysau costau ychwanegol i'r Ymddiriedolaeth wrth symud ymlaen.

41 Cymeradwywyd y cynllun ariannol ar gyfer 2016-17 gan y Bwrdd ar 17 Mawrth 2016 ac roedd yn ymgorffori gofyniad o £1.2 miliwn o arbedion er mwyn cydbwyso'r gyllideb. Erbyn mis tri, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cynyddu'r gofyniad i £1.6 miliwn o arbedion, er mwyn ystyried y pwysau ychwanegol. Roedd y cynllun yn seiliedig ar y rhagdybiaeth o £1.3 miliwn o gyllid ychwanegol i gwmpasu llog ar gyflogau a chynnydd i gostau yswiriant gwladol. Ym marn yr Ymddiriedolaeth, mae diffyg cronedig yn y ganolfan ganser oherwydd y pwysau costau sydd heb eu hariannu dros y pum mlynedd ddiwethaf. Felly, roedd y cynllun yn ymgorffori cynnydd o £1.3 miliwn yng nghyllid yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Triniaethau yn y ganolfan ganser, yn seiliedig ar gynnydd canran yn y cyllid twf a dderbyniwyd gan fyrddau iechyd yn 2015-16. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, cytunwyd ar gynnydd o 1% ar gyfer Asiantaethau Cenedlaethol ar gyfer Triniaethau ymhlith sefydliadau'r GIG, a sicrhaodd £500,000 o'r £2.9 miliwn o gyllid ychwanegol gofynnol a oedd yn gadael diffyg sylfaenol o £2.4 miliwn.

42 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adrodd gorwariant trwy gydol 2016-17. Ym mis pump, y gorwariant tybiedig oedd £234,000 ac mae rhagolwg diweddaraf yr Ymddiriedolaeth yn dangos gorwariant posibl o £600,000 am nad yw'r cynnydd cyllid i Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Triniaethau y ganolfan ganser wedi'i gymeradwyo'n llawn eto.

43 Nid yw ein gwaith wedi nodi unrhyw dystiolaeth y gallai dulliau cyflawni sefydliadol neu ansawdd a diogelwch gwasanaethau gael eu cyfaddawdu neu eu bod wedi'u cyfaddawdu er mwyn cyflawni perfformiad ariannol llwyddiannus yn ystod y flwyddyn. Er bod y ganolfan ganser yn parhau i wynebu heriau ariannol arwyddocaol, oherwydd y pwysau ar y galw, a hynny heb unrhyw gynnydd yn lefel y cyllid sylfaenol craidd, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi lleihau'r lefelau gweithgarwch er mwyn cyflawni'r targedau ariannol. Mae elfen arwyddocaol o'r targedau arbedion yn y ganolfan ganser yn ymwneud â rheoli swyddi gwag, fodd bynnag, ystyrir pob swydd wag am eu heffaith ar ansawdd y gwasanaethau ac os ydynt yn hollbwysig, fe'u llenwir cyn gynted â phosibl. Er, mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn nad yw'r ganolfan ganser yn cael ei hariannu ar sail lefel y gweithgarwch a gynhelir yno, mae wedi amsugno costau'r gweithgarwch ychwanegol hwn yn hytrach na chael effaith ar ddarparu gwasanaethau neu ansawdd y gwasanaethau.

## Llywodraethu a sicrwydd – mae dull yr Ymddiriedolaeth o lywodraethu a sicrwydd yn gadarn ar y cyfan ac yn gwella, er ein bod wedi nodi rhai meysydd pellach y mae angen eu gwella

44 Mae ein gwaith asesu strwythuredig yn 2016 wedi archwilio trefniadau'r Ymddiriedolaeth i ddatblygu IMTP ac adrodd ar gyflawni'r cynllun, a'r dull ar gyfer datblygu ac adolygu system o sicrwydd y bwrdd. Rydym hefyd wedi ystyried effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd a'i strwythurau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed yn mynd i'r afael ag argymhellion yr asesiad strwythuredig blaenorol a materion gwella. Nodir ein canfyddiadau isod.

### Cynllunio ac adrodd strategol – mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu ei IMTP drwy gynyddu capasiti cynllunio a gwaith modelu gwell. Mae cyfle o hyd i atgyfnerthu'r gwaith o graffu ar gyflawniad yr IMTP ac integreiddio strategaethau amrywiol

45 Mae'r canfyddiadau sy'n ategu'r casgliad hwn yn seiliedig ar ein hadolygiad o ddull cynllunio strategol yr Ymddiriedolaeth[4], monitro ac adrodd ar gyflawni'r IMTP. Rydym hefyd wedi ystyried y trefniadau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglenni newid strategol sy'n sail i'r IMTP a'r cynnydd a wnaed yn mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol sy'n ymwneud â chynllunio strategol a gweithredol. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

#### Datblygu'r IMTP

46 Cymeradwywyd yr IMTP gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Mawrth 2016 cyn cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon bod y cynllun wedi'i gymeradwyo ar 29 Mehefin 2016.

47 Mae'r IMTP yn fwy na 250 tudalen o hyd ac mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y gall fod yn anodd darllen ac ymgysylltu â dogfennau o'r hyd hwn. Mae bwriad yr Ymddiriedolaeth i gynhyrchu fersiwn hawdd ei ddarllen o'r cynllun yn y dyfodol yn syniad da.

48 Yn ystod cyfweliadau, dywedodd y staff wrthym fod y dull o ddatblygu'r IMTP eleni wedi ceisio bod yn gynhwysol ac o'r bôn i'r brig. Dywedodd rhai o'r staff wrthym fod gan yr is-adrannau fwy o reolaeth dros y broses gynllunio eleni, yn hytrach na bod y broses sy'n cael ei llywio gan y tîm cynllunio corfforaethol.

[4] Nid yw'r gwaith archwilio wedi dyblygu gwaith craffu IMTP Llywodraeth Cymru, ond mae wedi ystyried y camau a gymerwyd gan gyrff y GIG mewn ymateb i unrhyw adborth gan Lywodraeth Cymru ar y cynllun neu amodau cymeradwyo'r cynllun.

49 Bu aelodau'r Bwrdd yn ymgysylltu yn yr IMTP mewn dwy sesiwn ddatblygu. Yn ein harolwg, mynegodd aelodau'r Bwrdd yn Felindre safbwyntiau cadarnhaol am y broses IMTP mewn ymateb i'n harolwg o aelodau'r bwrdd. Mewn ymateb i'r datganiad 'Rwy'n deall buddiannau symud i IMTP tair blynedd', roedd pump o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf, roedd dau yn cytuno ac roedd un nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno. Rhoddwyd safbwyntiau cadarnhaol gan bob un o'r wyth ymatebwr yn Felindre, i'r cwestiwn a oedd y Fframwaith Cynllunio IMTP/GIG wedi gwella dull cynllunio'r Ymddiriedolaeth.

50 Roedd gan aelodau'r bwrdd farn fwy cymysg i'r cwestiwn a yw'r Ymddiriedolaeth wedi meintioli'r buddiannau a ddisgwylir o'r IMTP. Mewn ymateb i'r datganiad 'Mae'r Ymddiriedolaeth meintioli'r buddiannau y mae'n disgwyl i'r IMTP presennol eu cyflawni', roedd un ymatebwr yn cytuno'n gryf, roedd pedwar yn cytuno, roedd dau nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd un yn anghytuno. Er nad ydym yn gwneud argymhelliad ar y mater hwn, dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried datblygu cynllun gwireddu buddiannau penodol ar gyfer ei IMTP.

51 Ar y cyfan, mae cyrff iechyd ar hyd a lled Cymru yn cydnabod bod eu hadnoddau cynllunio yn parhau i fod yn brin iawn. Dywedodd Felindre wrthym eu bod yn adolygu eu capasiti cynllunio yn gyson a'u bod wedi cynyddu eu capasiti eleni. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi creu swyddi newydd i arwain gwaith cynllunio yng Nghanolfan Ganser Felindre a GGC. Mae'r tîm cynllunio corfforaethol wedi ehangu hefyd.

52 Eleni rydym wedi nodi dwy enghraifft gadarnhaol o'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio gwybodaeth fodelu fanwl i gefnogi gwaith cynllunio strategol a gweithredol. Yr enghreifftiau oedd y model cynllunio a gweithgarwch sy'n cefnogi'r cynllun busnes Trawsnewid Gwasanaethau Canser a gwaith diagnostig y gadwyn gyflenwi yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru.

## Integreiddio'r IMTP gyda chynlluniau eraill

53 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn ymgysylltu mewn nifer fawr o weithgareddau datblygu strategol eleni. Yn ogystal â datblygu'r IMTP, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio ar strategaethau ar gyfer canser, radiotherapi, ymchwil a datblygu, addysg, ystadau, datblygu sefydliadol, arloesedd a meddygaeth aildyfu. Yn ogystal â'r strategaethau hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn cyflwyno rhaglenni newidiadau strategol mawr yn cynnwys Trawsnewid Gwasanaethau Canser a Gwasanaeth Gwaed Cymru Gyfan.

54 Yn ystod cyfweliadau, roedd staff yn cydnabod bod angen i'r Ymddiriedolaeth wneud mwy i gydgysylltu pob un o'r datblygiadau strategol presennol. Mae'r Ymddiriedolaeth ei hun wedi cydnabod hyn drwy gynnal diwrnod cynllunio ar draws y sefydliad cyfan, gyda'r nod o wella'r cysylltiadau rhwng pob un o'r datblygiadau parhaus amrywiol.

## Rolau a chyfrifoldebau mewn cysylltiad â'r IMTP

55 Deuthum i'r casgliad bod gan yr Ymddiriedolaeth rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir mewn cysylltiad â'r IMTP. Yn Felindre, fel yn achos pob un ond un corff iechyd arall, y cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am gynllunio sy'n bennaf gyfrifol am ddatblygu'r IMTP. Fel gyda'r chwe chorff iechyd arall, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth un swyddog gweithredol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o gyflawni pob agwedd o'r IMTP. Mae'r cyfrifoldeb am gyflawni'r IMTP wedi'i rannu rhwng swyddogion gweithredol Felindre, yn unol â'u portffolios penodol.

56 Yn ein harolwg o Aelodau'r Bwrdd, roedd tri ymatebwr yn cytuno'n gryf ac roedd pump yn cytuno bod yna rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir am gyflawni'r amcanion a'r gweithredoedd penodol yn yr IMTP. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn Felindre yn gyffredinol debyg i'r ymatebion a dderbyniwyd ar draws Cymru gyfan.

57 Mae Felindre wedi cymryd camau penodol hefyd i sicrhau bod gan bob aelod o staff rôl yn y broses o gyflawni amcanion yr IMTP. Drwy gynnwys trafodaeth ar yr IMTP ym mhob arfarniad blynyddol, mae'r Ymddiriedolaeth yn ceisio ymgorffori'r IMTP fel rhan hanfodol o'r gwaith yn y sefydliad.

## Craffu ar gyflwyno'r IMTP

58 Yn Felindre, deuthum i'r casgliad bod cyfle yn parhau i atgyfnerthu'r ffordd mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn craffu ar gyflwyno'r IMTP.

59 Fel yn achos y mwyafrif o gyrff iechyd, mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol a chynlluniau prosiect i fonitro cynnydd yr IMTP. Hefyd, yn gyffredin â'r mwyafrif, mae Felindre yn cyflwyno adroddiad bob mis i'w grŵp gweithredol ar gyflwyno'r IMTP.

60 Mae gan bwyllgorau'r Bwrdd rôl gref yn monitro cynnydd yr IMTP, ond yn wahanol i'r rhan fwyaf o gyrff y GIG yng Nghymru, ni wneir hyn drwy un pwyllgor unigol. Yn Felindre, mae gan bob pwyllgor rôl yn monitro agweddau ar gyflwyno IMTP. Mae pob cyfarfod pwyllgor yn ystyried adroddiad perfformiad sy'n nodi'r cynnydd wrth gyflwyno camau gweithredu'r IMTP sydd wedi'u neilltuo i'r pwyllgor hwnnw graffu arno. Ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd maent yn ystyried adroddiad perfformiad llawn hefyd, sy'n nodi cynnydd yn erbyn holl gamau IMTP. Er bod agwedd Felindre yn wahanol yn hyn o beth, nid ydym wedi nodi unrhyw bryderon neu faterion penodol sy'n gysylltiedig â'r agwedd hon. Yn wir, rydym yn deall y rhesymeg o ymgysylltu pob pwyllgor yn y gwaith o fonitro'r IMTP, fel dull o ymgorffori'r IMTP ym mhob rhan o'r sefydliad.

61 Roedd gan ymatebwyr i'n harolwg o aelodau'r Bwrdd yn Felindre safbwyntiau cymharol gadarnhaol am yr amser sy'n cael ei neilltuo i graffu ar yr IMTP. Mewn ymateb i'r datganiad 'Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol yn neilltuo amser digonol i graffu'n effeithiol ar yr IMTP presennol', dywedodd dau o ymatebwyr Felindre eu bod yn cytuno'n gryf, roedd pedwar yn cytuno ac roedd dau ohonynt nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd gan aelodau'r Bwrdd safbwyntiau cymharol gadarnhaol hefyd am y wybodaeth a ddarparwyd i gefnogi'r broses o graffu ar yr IMTP.

62 Er gwaethaf y safbwyntiau a fynegwyd yn yr arolwg, mae ein harsylwadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau wedi nodi bod y gwaith o graffu ar gyflwyno'r IMTP yn ymddangos yn gyfyngedig o ran amser a manylder. Mae hyn yn ailadrodd canfyddiad yn arolwg y llynedd pan wnaethom argymell cam gweithredu i atgyfnerthu gwaith craffu ar yr IMTP ar lefel y Bwrdd. Eleni fe wnaethom nodi enghreifftiau penodol yng nghyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac Ymchwil a Datblygiad, lle'r oedd y drafodaeth am gyflwyno'r IMTP yn fyr iawn, er bod adroddiad cynnydd yr IMTP yn amlygu materion sy'n peri pryder.

63 Mae Arddangosyn 3 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth ar yr argymhelliad a wnaethom yn 2015 am graffu ar yr IMTP.

### Arddangosyn 3: cynnydd ar argymhelliad 2015 o ran craffu ar yr IMTP

Mae'r tabl yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhelliad 2015 o ran craffu ar yr IMTP.

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| 2015 R1: Dylai'r Ymddiriedolaeth atgyfnerthu'r gwaith o graffu ar lefel y Bwrdd ar agweddau'r IMTP sydd y tu ôl i'r amserlen er mwyn datblygu ystyriaethau o'r materion hyn ar lefel pwyllgor, a sicrhau bod penderfyniadau cynnar yn cael eu gwneud ar unrhyw gamau gweithredol angenrheidiol. | **Gwnaed rhywfaint o gynnydd ond mae angen gwneud mwy o waith**<br>Mae ein canfyddiadau ar y mater hwn yn debyg iawn i'r llynedd. Mae cyfle yn parhau i atgyfnerthu'r gwaith o graffu ar gynnydd yr IMTP. |

### Cyflawni newid strategol

64 Eleni rydym wedi ceisio deall mwy am ddulliau o weithredu newid strategol. Mae gan nifer o gyrff iechyd, neu maent yn y broses o sefydlu, swyddfa rhaglen newid. Mae Felindre eisoes wedi cyflwyno swyddfa rheoli rhaglen yn benodol ar gyfer y Gwasanaeth Trawsnewid Canser ac mae wedi mabwysiadu methodoleg rheoli rhaglen unigol er mwyn llywio dulliau rheoli prosiect. Mae Felindre yn defnyddio methodoleg Prince at reoli prosiectau, ac mae'n ystyried cyflwyno hyfforddiant yn awr a dull safonol o reoli rhaglenni, sy'n cynnwys GGC a'r Gwasanaeth Trawsnewid Canser.

65 Mae newidiadau ar raddfa fawr yn broses fwy cyffredin yn awr yn Felindre. Eleni gwelsom gyflwyniad Gwasanaeth Gwaed Cymru Gyfan, ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi hyn yn llwyddiant. Eleni gwelsom hefyd newidiadau mawr pellach yn cael eu gwneud i'r gwaith cadwyn gyflenwi yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru, a pharhaodd cynnydd hefyd yn y rhaglen Gwasanaeth Trawsnewid Canser.

66 O ystyried maint y newid o fewn sefydliad o faint cymedrol. Mae Arddangosyn 4 yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth mewn cysylltiad â'r argymhelliad.

### Arddangosyn 4: cynnydd ar argymhelliad rheoli newid 2015

Mae'r tabl yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn arbennig argymhelliad 2015 ar reoli newid.

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| 2015 R6a: Dylai'r Ymddiriedolaeth gynnal asesiad risg ar ddigonoldeb galluoedd yr uwch-arweinyddiaeth i gyflenwi newid ar raddfa eang. | **Ar y trywydd cywir ond nid yw'n gyflawn eto**<br>Cytunodd y Pwyllgor Cyflogau ym Mai 2016 ar ddull o asesu risg ar ddigonoldeb galluoedd yr uwch-arweinyddiaeth i gyflenwi newid ar raddfa eang. Ar adeg drafftio'r ddogfen hon, nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi cwblhau'r asesiad risg hwnnw. |

67 Holwyd cyfres o gwestiynau arolwg i aelodau'r Bwrdd ynglŷn â phrofiad blaenorol yr Ymddiriedolaeth a'r rhagolygon o gyflenwi newid strategol yn y dyfodol. Ceir crynodeb o'r canfyddiadau isod:

- mewn ymateb i'r datganiad 'Mae fy sefydliad eisoes wedi gwella'r dulliau o gyflenwi gwasanaethau o ganlyniad i Fframwaith Cynllunio'r GIG', roedd tri ymatebwr yn cytuno'n gryf, roedd pedwar yn cytuno ac roedd un nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno.
- mewn ymateb i'r datganiad 'Mae fy sefydliad yn debygol o wella'r dulliau cyflenwi gwasanaethau yn y dyfodol o ganlyniad i'r drefn gynllunio integredig', roedd tri ymatebwr yn cytuno'n gryf ac roedd pedwar yn cytuno.
- pan ofynnwyd i aelodau'r Bwrdd a oedd gan eu sefydliad brofiad blaenorol o gyflwyno newidiadau i wasanaethau sy'n arwain at welliannau cynaliadwy wrth gyflenwi gwasanaethau, dywedodd un ymatebwr 'bob amser', dywedodd chwech 'y rhan fwyaf o'r amser' a dywedodd un 'weithiau'. Roedd yr ymatebion hyn yn fwy cadarnhaol na'r sefyllfa arferol yng Nghymru.

### Sicrwydd ac effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau – mae'r systemau sicrwydd yn effeithiol ar y cyfan ac er bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da yn gwella effeithiolrwydd y Bwrdd a phwyllgorau, mae rhywfaint o le i wella

68 Yn yr adran hon mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar ein hadolygiad o'r dulliau a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu system o sicrwydd y bwrdd, yn ogystal ag effeithiolrwydd y Bwrdd a'i strwythurau llywodraethu. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

#### System o sicrwydd y bwrdd – mae'n ymddangos bod dull yr Ymagwedd o gynllunio ei system sicrwydd yn effeithiol ar y cyfan, er y gellir sicrhau buddiannau pellach drwy fabwysiadu dull mwy systemataidd o fapio sicrwydd

69 Mae gan bob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd strwythurau a phrosesau llywodraethu ar waith i sicrhau a darparu sicrwydd ar y gwasanaethau a ddarperir, bod risgiau yn cael eu rheoli a bod y sefydliad yn gweithredu yn unol â gofynion cyfreithiol a gofynion eraill. Mae cyrff y GIG yn sefydliadau cymhleth ac maent yn gweithredu mewn amgylchedd deinamig. Mae'n bwysig felly bod byrddau yn sicrhau eu bod yn adolygu eu trefniadau llywodraethu a sicrwydd a bodloni eu hunain bod y sicrwydd maent yn dibynnu arno yn gymesur, wedi'i dargedu'n briodol ac yn cwmpasu portffolio risg cyffredinol y sefydliad drwyddo draw.

70 Gwneir defnydd cynyddol o fapio sicrwydd[5] fel dull o nodi a mapio'r sicrwydd sydd ei angen ar risgiau allweddol i gyflawni amcanion sefydliadol. Gall y broses fapio helpu sefydliadau i nodi unrhyw fylchau yn eu sicrwydd, neu ddyblygu diangen o brosesau sicrwydd. Mae cymhorthion mapio o'r fath yn cynorthwyo i gynllunio fframwaith sicrwydd effeithiol, sy'n alinio risgiau a sicrwydd i'r systemau rheoli a'r trefniadau craffu priodol.

71 Rydym wedi archwilio'r dull a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu ac adolygu ei system sicrwydd y bwrdd a sut mae hyn yn cymharu â'r dulliau a fabwysiadwyd gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd eraill yng Nghymru. Gwnaethom ganfod nad oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull systemataidd ar hyn o bryd i fapio sicrwydd ac y gallai'r Ymddiriedolaeth elwa o ddysgu o'r dulliau mapio sy'n cael eu defnyddio yn awr gan gyrff iechyd eraill yng Nghymru. Mae canfyddiadau manylach wedi'u nodi isod.

[5] Trysorlys EM, **Fframweithiau Sicrwydd**, Rhagfyr 2012

72 Ein casgliad oedd ei bod yn ymddangos bod gan Felindre broses effeithiol ar y cyfan ar gyfer pennu amcanion corfforaethol. Mae Pennod 1 yr IMTP yn cyflwyno 'map strategaeth' sy'n darparu darlun cyfunol o weledigaeth, nodau sefydliadol, themâu strategol a gwerthoedd craidd Felindre. Mae prif adrannau'r cynllun yn darparu rhagor o fanylion am y themâu strategol hyn, drwy bennu amcanion, camau gweithredu allweddol a'r canlyniadau penodol a ddymunir.

73 Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan aelodau'r bwrdd yn ein harolwg am bennu amcanion corfforaethol. Darperir y manylion isod:

- mewn ymateb i'r datganiad 'Mae'r sefydliad wedi datgan yn glir beth fydd llwyddiant yn erbyn yr amcanion', roedd tri ymatebwr yn cytuno'n gryf, roedd pedwar yn cytuno ac roedd un nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno;
- mewn ymateb i'r datganiad 'Mae amcanion corfforaethol fy sefydliad wedi'u disgrifio mewn ffordd ystyrlon sy'n galluogi'r Bwrdd a'i bwyllgorau i olrhain cynnydd dros amser', roedd tri ymatebwr yn cefnogi'n gryf, roedd pedwar yn cytuno, ac roedd un nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno.

74 Byddem wedi hoffi gweld dull mwy systemataidd o fapio a rheoli'r risgiau a'r bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r amcanion corfforaethol/strategol hyn. Drwy'r adroddiadau Sicrhau Rhagoriaeth sy'n cael eu cyflwyno i bob pwyllgor, mae Felindre yn ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r camau a nodir yn yr IMTP ac mae gan Felindre gofrestr risgiau corfforaethol hefyd sy'n ystyried darlun cyfunol o'r risgiau sy'n dod i'r amlwg yn yr is-adrannau. Fodd bynnag, gallai fod yn fuddiol i'r Ymddiriedolaeth ddysgu am ddulliau mewn cyrff iechyd eraill, lle mae'r sefydliad, yn ogystal â rheoli risgiau gweithredol, yn nodi'n benodol y risgiau sy'n gysylltiedig â chyflenwi amcanion corfforaethol/strategol lefel uchel. Bydd yr allbwn o'n gwaith cymharol ar draws Cymru gyfan yn darparu rhagor o fanylion ar y dulliau sy'n cael eu defnyddio gan eraill.

75 Roedd adroddiad asesiad strwythuredig y llynedd yn gwneud argymhelliad i atgyfnerthu proses bresennol yr Ymddiriedolaeth o adrodd risgiau i'r Bwrdd a phwyllgorau. Mae Arddangosyn 5 yn disgrifio cynnydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu'r argymhelliad.

Arddangosyn 5: cynnydd ar argymhelliad 2015 ar reoli risgiau

Mae'r tabl yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhelliad 2015 ar reoli risgiau.

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| 2015 R4a: Dylai'r Ymddiriedolaeth wella'r broses ar adrodd y gofrestr risg i'r Bwrdd a phwyllgorau i sicrhau na ddefnyddir amser gwerthfawr yn trafod mân wallau yn y gofrestr. | Cwblhawyd – er ein bod yn gwneud argymhelliad newydd yn awr ar reoli risgiau.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu ei chofrestr risgiau corfforaethol eleni, ac wedi gweithio gyda'r arweinwyr sydd wedi'u haseinio i bob risg, er mwyn adolygu'r naratif a'r amserlenni ar gyfer gweithredu.<br>Mae'r arsylwadau yn awgrymu llai o broblemau o ran gwybodaeth anghywir yn y gofrestr, er y bydd y broses bresennol bob amser yn arwain at bwyllgorau yn ystyried fersiwn o'r gofrestr sydd wedi dyddio.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau cadarnhaol eraill at reoli risg. Mae'r camau hyn yn cynnwys gweithdai risgiau gyda chyfarwyddwyr ac adroddiadau llinell flaen, sesiwn goddefgarwch at risgiau gydag Aelodau Annibynnol, gwaith i fireinio ac egluro datganiadau risg, gwella'r ffurflen cofnodi risgiau, diweddaru cofrestr risg CGF a chynnwys y risgiau TCS yng nghofrestr yr Ymddiriedolaeth, lle y bo'n briodol.<br>Mae cyfle pellach yn bodoli i wella'r dulliau rheoli risgiau. Mae'r Bwrdd wedi cydnabod yr angen i egluro'r cyfrifoldebau ar gyfer cau risgiau i lawr ac wedi trafod pryderon bod y broses risg bresennol yn wahanol i bob pwyllgor a bod posibilrwydd nad yw'r broses yn casglu'r risgiau pwysicaf yn y pen draw yn y gofrestr gorfforaethol. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd hefyd wrthym fod cyfle i wella'r broses ar gyfer penderfynu pa rai o risgiau'r is-adrannau ddylai gael eu cynnwys ar y gofrestr lefel gorfforaethol.<br>Mae cyfle hefyd i wella cyflwyniad y gofrestr risg gorfforaethol. Roedd y mwyafrif o'r testun yng nghofrestr risg Mai 2016 y Bwrdd mewn ffont coch, sy'n tanseilio pwrpas y dulliau adrodd goleuadau traffig. Gallai fod yn fuddiol mabwysiadu rhai o'r agweddau cyflwyniadol o gofrestr TCS ar gyfer y gofrestr gorfforaethol, gan gynnwys rhestru'r risgiau yn nhrefn eu difrifoldeb ac amlygu risgiau critigol yn benodol.<br>Datgelodd ein harolwg rai safbwyntiau cymharol negyddol am risgiau. O ran y datganiad 'Mae gan nifer ddigonol o aelodau'r Bwrdd y sgiliau i graffu'n effeithiol i weld a yw'r risgiau yn cael eu rheoli', roedd un ymatebwr yn cytuno'n gryf, roedd dau yn cytuno, roedd un nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno, roedd tri yn anghytuno ac roedd un yn anghytuno'n gryf. |

76 Mae mapio sicrwydd y bwrdd yn ddull lle bydd sefydliadau yn meddwl sut maent yn cynllunio eu systemau llywodraethu a sicrwydd er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni eu hamcanion corfforaethol. Drwy bennu amcanion corfforaethol clir, a thrwy nodi'r risgiau a allai rwystro cyflawniad yr amcanion hynny, gall sefydliadau fapio'r sicrwydd penodol sydd ei angen arnynt mewn cysylltiad â'r risgiau hynny.

77 Canfuwyd nad yw Felindre wedi gweithio drwy broses mapio sicrwydd eang benodol eto. Fodd bynnag, dywedodd Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol Felindre wrthym fod proses fapio o'r fath yn rhan allweddol o'i rôl ddyddiol a bod ei thîm yn rhoi ystyriaeth barhaus i'r sicrwydd sydd ei angen. Nid ydym wedi gwneud argymhelliad ynglŷn â'r mater hwn ond byddwn yn annog yr Ymddiriedolaeth i ystyried yr allbwn arfaethedig o'n gwaith cymharol ar fframweithiau sicrwydd ac ystyried a allai proses systemataidd, mwy ffurfiol o fapio risgiau a sicrwydd atgyfnerthu'r trefniadau presennol.

78 Yn ein harolwg, mynegodd y Bwrdd safbwyntiau cadarnhaol ar y cyfan am y dull a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth i nodi'r sicrwydd sydd ei angen arni. Mewn ymateb i'r datganiad 'Mae fy sefydliad yn nodi'r sicrwydd sydd ei angen arni yn effeithiol i sicrhau bod yr amcanion strategol yn cael eu cyflawni', roedd dau ymatebwr yn cytuno'n gryf, roedd pump yn cytuno ac roedd un nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno.

79 Mynegodd aelodau'r Bwrdd safbwyntiau cadarnhaol hefyd am y ffordd mae'r system sicrwydd yn cael ei hadolygu. Mewn ymateb i'r datganiad 'Mae fy sefydliad yn ymgysylltu ag aelodau'r Bwrdd i ddatblygu ac adolygu fframwaith sicrwydd y bwrdd yn barhaus', roedd pum ymatebwr yn cytuno'n gryf ac roedd tri yn cytuno.

80 Mae gan bwyllgorau Felindre gynlluniau gwaith blynyddol ar waith ac mae proses i adolygu ac addasu'r cynlluniau gwaith hynny yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, nid yw Felindre wedi cytuno eto ar broses i alluogi pwyllgorau i asesu eu cynlluniau gwaith blynyddol ar y cyd er mwyn nodi unrhyw fylchau a dyblygu yn y sicrwydd.

81 Rhoddodd aelodau'r bwrdd sylwadau cadarnhaol ar effeithiolrwydd cyffredinol y system sicrwydd. Yn Felindre, roedd pum ymatebwr yn cytuno'n gryf ac roedd tri yn cytuno bod fframwaith sicrwydd y bwrdd yn galluogi'r sefydliad i gyflawni ei amcanion corfforaethol.

82 Gall hunanasesiadau gonest a gwerthusol helpu byrddau a phwyllgorau i ddysgu gwersi o lwyddiannau a phroblemau. Mae gan Felindre broses flynyddol o hunanasesiadau a ddylai gwmpasu'r Bwrdd a phob pwyllgor. Fodd bynnag, nid yw pob pwyllgor wedi cwblhau hunanasesiad hyd yma ac mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod nad yw'r gwaith hwn wedi datblygu mor gyflym â'r bwriad. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu rhaglen yn ddiweddar i gwblhau hunanasesiad ar gyfer holl bwyllgorau'r Bwrdd. Y canfyddiadau eraill ar hunanasesiadau yw:

- mewn ymateb i'r datganiad 'Mae fy sefydliad yn adolygu ei strwythurau llywodraethu yn effeithiol ac yn eu haddasu i ganolbwyntio ar y meysydd sydd bwysicaf ar gyfer llwyddiant sefydliadol', roedd pump o ymatebwyr yr arolwg yn Felindre yn cytuno'n gryf, roedd dau yn cytuno ac roedd un nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno;
- mewn ymateb i'r datganiad 'Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddull effeithiol o asesu effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau', roedd dau o ymatebwyr Felindre yn cytuno'n gryf, roedd pedwar yn cytuno ac roedd un nad oedd yn cytuno nac yn anghytuno;
- mewn ymateb i'r datganiad 'Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o'r hunanasesiadau a'r adolygiadau allanol o gymheiriaid i wella fframwaith sicrwydd y bwrdd', roedd pump o ymatebwyr Felindre yn cytuno'n gryf, roedd dau yn cytuno ac roedd un yn anghytuno;
- gwelsom y Pwyllgor Archwilio yn defnyddio'r dull hunanasesu hwn a nodwyd proses gadarnhaol ac adeiladol a oedd yn arwain at ddysgu a gwelliannau gwirioneddol.

### Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau – mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da ar y materion a godwyd gennym yn flaenorol. Nodwyd cyfle hefyd i wella gweithrediad rhai o'r pwyllgorau

83 Unwaith eto eleni rydym wedi nodi trafodaethau cadarnhaol a didwyll yng nghyfarfodydd y Bwrdd, gyda'r aelodau yn arddangos ymddygiad cefnogol ac adeiladol.

84 Mae aelodau'r Bwrdd yn credu'n gryf bod diwylliant o dryloywder yn yr Ymddiriedolaeth. Mewn ymateb i'r datganiad 'Mae'r sefydliad wedi gwneud ymdrech bendant i sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â darparu sicrwydd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gwneud hynny mewn ffordd agored a gonest', roedd saith ymatebwr yn cytuno'n gryf ac roedd un yn cytuno.

85 Datgelodd ein harolwg o wefan yr Ymddiriedolaeth gyfle i wella cydymffurfiaeth â Chylchlythyr Iechyd Cymru (WHC/2016/22) a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ar dryloywder adroddiadau cyhoeddus. O'r eitemau yr oedd yn ofynnol i'r wefan eu cynnwys, ni welsom dystiolaeth o'r canlynol: archebion sefydlog, cyfarwyddiadau ariannol sefydlog, cynllun blynyddol o fusnes y Bwrdd, cynlluniau ymgysylltu â dinasyddion, polisi amseroedd ymweld hyblyg a chynllun diogelwch ac ansawdd cleifion. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau ac mae'n gweithio i sicrhau cydymffurfiaeth.

86 Eleni fe wnaethom nodi'r defnydd o sesiynau preifat 'ar gamera' o bwyllgorau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno'r sesiynau 'Rhan B' hyn oherwydd yr angen cynyddol i drafod materion sy'n sensitif yn fasnachol, sy'n aml yn ymwneud â'r rhaglen TCS. Er nad oes gennym unrhyw bryderon penodol ynglŷn â defnydd yr Ymddiriedolaeth o sesiynau ar gamera, rydym yn argymell bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i adolygu'r dull hwn er mwyn sicrhau ei fod yn cynnal cydbwysedd a thryloywder priodol.

87 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau pendant ar y risgiau a nodwyd gennym yn adroddiad y llynedd ar gynllunio olyniaeth y Bwrdd. Yn Felindre, bydd tymor dau Aelod Annibynnol (AA) yn dod i ben ym Mawrth 2017. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu drwy adolygu a chylchdroi aelodaeth AA a chadeiryddiaeth y pwyllgorau, yn ogystal â gweithio'n uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru i gyfrannu syniadau er mwyn darparu'r broses orau ar gyfer recriwtio AA newydd. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn adolygu ei rhaglen ymsefydlu bresennol ar gyfer AA ac mae'n cymryd camau cadarnhaol i dreialu'r rhaglen drwy ei defnyddio fel hyfforddiant gloywi ar gyfer AA presennol.

88 Hefyd, mae rhaglen datblygu ffurfiol gan y Bwrdd ar gyfer aelodau presennol y Bwrdd, ac mae aelodau'r bwrdd o'r farn ei bod yn eu cefnogi yn eu rôl. Mewn ymateb i'r datganiad 'Mae rhaglen datblygu'r bwrdd yn cefnogi sgiliau a hyder aelodau'r Bwrdd i ddelio'n effeithiol â sicrwydd a chraffu ar gyflawni yn erbyn amcanion', roedd pedwar o ymatebwyr yr arolwg yn cytuno'n gryf ac roedd pedwar yn cytuno.

89 Y llynedd, daethom i'r casgliad bod y pwyllgorau yn darparu dulliau craffu a sicrwydd cadarn gyda gwaith yn cael ei wneud yn barhaus i fanteisio i'r eithaf ar agendâu. Unwaith eto eleni rydym wedi arsylwi cadeiryddiaeth gref o gyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau ar y cyfan. Nodwyd bod cadeiryddion yn defnyddio dull cadarnach i oedi ar ôl eitemau ar yr agenda er mwyn ystyried y camau nesaf, yn dilyn y sylwadau yn adroddiad l llynedd bod cyfle i wella'r dull ffurfiol o gau eitemau ar agendâu.

90 Wrth gyflwyno ein canfyddiadau interim i'r Ymddiriedolaeth ym mis Gorffennaf 2016, fe wnaethom nodi bod rhai gwendidau yn y defnydd o adroddiadau ar y prif bwyntiau gan bwyllgorau i'r Bwrdd. Roedd adroddiadau ar y prif bwyntiau yn amrywio o ran maint a manylder rhwng y pwyllgorau, a dim ond trafodaeth fer iawn a gafwyd arnynt mewn cyfarfodydd, hyd yn oed wrth godi materion a allai fod yn bwysig. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau ers hyn i fynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy ail-edrych ar ddiben ac effeithiolrwydd yr adroddiadau hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi diwygio fformat y templed i sicrhau nad yw'r adroddiadau hyn ond yn darparu crynodeb o gyfarfodydd pwyllgorau. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi cyflwyno proses newydd lle mae pwyllgorau yn oedi ar ddiwedd pob cyfarfod i drafod y materion allweddol y maent yn dymuno eu codi gyda'r Bwrdd drwy adroddiadau ar y prif bwyntiau.

91 Un o rolau allweddol y Bwrdd a'i bwyllgorau yw monitro a chraffu ar berfformiad y sefydliadau. Mae Arddangosyn 6 yn disgrifio cynnydd yr Ymddiriedolaeth wrth fynd i'r afael ag argymhellion y llynedd ar reoli perfformiad.

### Arddangosyn 6: cynnydd ar argymhellion 2015 ar reoli perfformiad

Mae'r tabl yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion 2015 ar reoli perfformiad.

| Argymhellion 2015 | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| 2015 R3a: Dylai'r Ymddiriedolaeth wella'r adroddiad perfformiad ymhellach gan roi sylw i'r materion a godir yn yr adroddiad Asesiad Strwythuredig hwn. | **Ar y trywydd cywir ond nid yw'n gyflawn eto**<br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gynnal adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad sydd, ymhlith pethau eraill, yn ceisio mynd i'r afael â'r argymhelliad a wnaethom yn 2015.<br>Mae'r dulliau rheoli perfformiad yn Felindre yn parhau i ganolbwyntio'n drwm ar adroddiadau ac maent yn llafurus. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd hefyd y dylai'r Ymddiriedolaeth ddiwygio ei fatrics perfformiad allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn mesur agweddau pwysicaf y gwasanaethau.<br>Dywedodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd bod angen i'r Ymddiriedolaeth fod yn ofalus nad yw'n disgyn i'r fagl o ganolbwyntio ar sut mae adroddiadau perfformiad yn ymddangos, yn hytrach na chanolbwyntio ar yr hyn mae'r adroddiadau yn ei ddatgelu am berfformiad gwasanaeth. Clywsom safbwyntiau tebyg hefyd am y gofrestr risg. |

| Argymhellion 2015 | Disgrifiad o’r cynnydd |
|---|---|
| 2015 R3b: Dylai’r Ymddiriedolaeth datblygu cynllun gweithredu sy’n pennu sut a pha bryd y bydd yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei hymagwedd at feincnodi. | **Ar y trywydd cywir ond nid yw’n gyflawn eto**<br>Mae’r Ymddiriedolaeth yn bwriadu mynd i’r afael â’r argymhelliad hwn fel rhan o’r adolygiad o’r Fframwaith Rheoli Perfformiad. Mae’r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau gyda’r gwaith o feincnodi yn erbyn canolfannau canser eraill drwy’r rhaglen TCS.<br>Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gofyn i ragor o wybodaeth feincnodi gael ei darparu iddynt er mwyn hysbysu’r adolygiad diwedd y flwyddyn rhwng Llywodraeth Cymru a Felindre. |
| 2015 R3c:<br>Dylai’r Ymddiriedolaeth ehangu ymhellach yr ystod o ddulliau a ddefnyddir ganddi i gasglu adborth gan gleifion a rhoddwyr gwaed, gan ddefnyddio, fel ffynhonnell i gyfeirio ati, ein hadroddiad yn 2013 ar brofiad defnyddwyr y gwasanaeth. | **Cwblhawyd**<br>Fe wnaethom nodi cynnydd sylweddol yn y maes hwn. Mae adroddiadau’r Bwrdd a’r pwyllgorau bellach yn nodi materion yn ymwneud â phrofiadau cleifion a rhoddwyr gwaed, gyda chysylltiadau clir i’r camau sy’n cael eu cymryd, ac fe welsom enghreifftiau o graffu da a oedd wedi’i hwyluso gan wybodaeth o’r fath.<br>Er bod yr adroddiad hwn yn bod yr argymhelliad hwn wedi’i gwblhau, byddem yn annog yr Ymddiriedolaeth i barhau i wella yn y maes pwysig hwn. |
| 2015 R3d:<br>Dylai’r Ymddiriedolaeth gryfhau ei hadroddiad ar brofiad rhoddwyr gwaed drwy adeiladu ar y newidiadau positif a wnaed i’r adroddiad ar brofiad cleifion yn y ganolfan ganser. | **Cwblhawyd**<br>Mae’r Ymddiriedolaeth wedi ailfodelu’r adroddiad ar brofiad rhoddwyr gwaed a gyflwynir i’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, gan ddysgu o’r newidiadau a wnaed i adroddiad y ganolfan ganser.<br>Er bod yr adroddiad hwn yn bod yr argymhelliad hwn wedi’i gwblhau, byddem yn annog yr Ymddiriedolaeth i barhau i wella yn y maes pwysig hwn. |

92 Er nad ydym wedi adolygu effeithiolrwydd pob pwyllgor unigol, rydym wedi nodi ffyrdd penodol y gall rhai pwyllgorau wella’r ffordd maent yn gweithio:

- mae’r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu wedi bod ar daith o welliannau ers cryn amser. Yn ystod ein gwaith, roedd gan y rhai a gyfwelwyd rai sylwadau cadarnhaol am y pwyllgor, gan bwysleisio graddau’r ymgysylltiad gan y cadeirydd a phriodoldeb arweinyddiaeth y pwyllgor. Mae angen i’r camau nesaf ar gyfer gwella gynnwys yr angen i egluro diben a chylch gwaith y pwyllgor, yr angen i ddechrau canolbwyntio ar faterion strategol yn hytrach na materion gweithredol a’r angen i bwyllgorau gwblhau hunanasesiad.
- mae Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol hefyd wedi bod yn ceisio gwella’r ffordd mae’n gweithio. Mae’r pwyllgor wedi adolygu ei ddull o gynllunio ei agenda, gyda’r cadeirydd yn awyddus i neilltuo amser ar gyfer trafodaethau hwy ar nifer lai o faterion.
- nodwyd rhai cyfleoedd i wella o fewn yr Is-bwyllgor Dysgu Sefydliadol. Mynegodd y rhai a gyfwelwyd eu pryderon am y diffyg eglurder o ran diben y pwyllgor ac mae’r Ymddiriedolaeth eisoes wedi nodi problemau mynychu gwael.

93 Mae Arddangosyn 7 yn disgrifio’r cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth mewn cysylltiad â’r argymhellion a wnaethom yn 2015 ar effeithiolrwydd y Bwrdd a’r pwyllgorau.

## Arddangosyn 7: cynnydd ar argymhellion 2015 ar effeithiolrwydd y Bwrdd a’r pwyllgorau

Mae’r tabl yn disgrifio’r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion 2015 ar effeithiolrwydd y Bwrdd a’r pwyllgorau.

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o’r cynnydd |
| --- | --- |
| 2015 R2a: Dylai’r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y Bwrdd yn penderfynu ar y camau sydd eu hangen yn dilyn yr adolygiad ar lywodraethu yn y rhaglen TCS. | **Cwblhawyd**<br>Mae’r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol wedi cwblhau ei hadolygiad o lywodraethu TCS a chymeradwyodd y Bwrdd y trefniadau diwygiedig ym mis Gorffennaf 2016.<br>Disgrifiwyd bod y dulliau o lywodraethu TCS yn gadarn mewn Archwiliad Mewnol eleni. |
| 2015 R2b: Dylai’r Ymddiriedolaeth ddiwygio templed y dudalen flaen ar gyfer papurau’r Bwrdd a’r pwyllgorau i wella eglurder ynglŷn â’r canlyniadau a geisir o bob papur. | **Cwblhawyd**<br>Mae arsylwadau a chyfweliadau yn awgrymu safbwyntiau cadarnhaol gan y staff ac aelodau annibynnol ynglŷn â fformat newydd papurau’r pwyllgorau. |

Strwythur sefydliadol – mae'r Ymddiriedolaeth ar daith i sicrhau bod yr is-adrannau yn cydweithio'n agosach ac mae'n cysylltu â Llywodraeth Cymru i egluro ei chylch gwaith llywodraethu ar gyfer cynnal Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

94 Yn yr asesiad strwythuredig y llynedd, fe wnaethom asesu a oedd CGF a GGC yn derbyn lefelau craffu cytbwys yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Canfuwyd bod eitemau penodol ar agenda CGF yn fwy cyffredin na'r eitemau penodol ar agenda GGC. Nid ydym wedi cynnal yr un dadansoddiad eleni er ein bod yn nodi bod y Bwrdd wedi cymryd y cam o gynnal cyfarfodydd yn GGC yn ogystal ag ym mhencadlys yr Ymddiriedolaeth. Mae hwn yn gam cadarnhaol sy'n ceisio sicrhau cydbwysedd gwell o ran proffil a chraffu ar draws yr is-adrannau.

95 Mae asesiadau strwythuredig blaenorol wedi rhoi sylwadau ar yr angen i wella gwaith partneriaeth mewnol drwy integreiddio CGF a GGC ymhellach. Mewn cyfweliadau eleni, barn gymysg oedd gan y staff am y lefel o integreiddio rhwng is-adrannau'r Ymddiriedolaeth. Yn gyffredinol, cawsom ein hysbysu bod GGC yn agosach yn awr at ganol corfforaethol yr Ymddiriedolaeth nac oedd yn y gorffennol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod ei bod ar daith a bod angen parhau i wthio am fwy o gydweithio awtomatig rhwng GGC a GCF. Yn ystod ein gwaith arsylwi, gwelsom rai enghreifftiau6 lle cafodd materion eu crybwyll mewn pwyllgorau a oedd yna'n arwain at ddysgu ar y cyd, yn ddamweiniol bron. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i hwyluso cydweithio gwell, fel y disgrifir isod:

- mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal gweithdai sydd wedi'u cysylltu â'r Strategaeth Datblygu Sefydliadol, sy'n cynnwys staff o bob is-adran. Yn wir, cynhaliwyd digwyddiad strategaeth Datblygu Sefydliadol ym mis Mawrth 2016 a hwn oedd yr achlysur cyntaf i rai o uwch staff GGC a GCF gwrdd â'i gilydd.
- mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal gweithdai ar draws y sefydliad cyfan bob dau fis ar gyfer penaethiaid gwasanaeth, uwch reolwyr ac AA.
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i gynnal cyrsiau arweinyddiaeth ar draws yr Ymddiriedolaeth eleni.

[6] Roedd yr enghreifftiau hyn yn ymwneud â'r Cynllun Iaith Gymraeg, cymharu rhestrau offer a'r fframwaith addysg feddygol.

96 Mae asesiadau strwythuredig blaenorol wedi trafod y cymhlethdodau sy'n cael eu hachosi o ganlyniad i'r Ymddiriedolaeth yn cynnal nifer o sefydliadau allanol[7] ar ran GIG Cymru. Eleni fe wnaethom nodi bod y trefniadau ar gyfer cynnal cyrff o fewn Felindre wedi parhau i newid. Er enghraifft, eleni gwelsom drosglwyddiad un corff a gynhelir (Canolfan Genedlaethol Cydweithredu dros Ganser) o Felindre a'r bwriad arfaethedig i gorff arall a gynhelir arwain y gwaith o ddatblygu hwb technoleg cenedlaethol.

97 Nodwyd eto eleni bod cynnal y cyrff hyn yn achosi cymhlethdodau i'r Ymddiriedolaeth. Yn ystod ein presenoldeb yng nghyfarfodydd pwyllgorau eleni, gwelsom nifer fach o drafodaethau ar yr angen i egluro rôl Felindre mewn cysylltiad â'r cyrff sy'n cael eu cynnal. Roedd y trafodaethau hyn yn tynnu oddi ar fusnes craidd y pwyllgor ar adegau ac roeddent yn dueddol o ganolbwyntio ar egluro rôl Felindre i'r graddau y mae'n gyfrifol am lywodraethu'r cyrff a gynhelir, ac nad yw'n gyfrifol am reoli perfformiad y cyrff a gynhelir.

98 Rydym yn cydnabod bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithio'n galed i sicrhau bod dulliau llywodraethu'r cyrff a gynhelir yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod yr angen i wella'r trefniadau presennol, yn arbennig ar gyfer Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn awr i sicrhau mwy o eglurder o ran cyfrifoldebau Felindre fel cynhaliwr ac i ddiwygio'r pecyn llywodraethu y mae Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru yn ei ddarparu yn awr i'r Pwyllgor Archwilio.

## Cynnydd wrth fynd i'r afael â materion o'r asesiadau strwythuredig blaenorol – mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da yn mynd i'r afael â materion o asesiadau strwythuredig blaenorol er ein bod wedi nodi problemau wrth olrhain argymhellion archwiliadau eleni

99 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o argymhelliad asesiad strwythuredig 2015 (gan gynnwys argymhelliad ar waith partneriaeth nad ydym wedi'i drafod eto yn yr adroddiad hwn). Yna, mae'r adran yn mynd ymlaen i ystyried effeithiolrwydd y trefniadau i olrhain argymhellion archwilio ac yn ystyried materion gwella a nodwyd yn flaenorol ar y defnydd o adnoddau, yn benodol rheoli'r gweithlu a TGCh. Roeddem yn falch bod yr Ymddiriedolaeth wedi defnyddio sesiwn datblygu'r Bwrdd eleni i ystyried ein hargymhellion ffurfiol ond hefyd i ystyried y cyfleoedd gwella ehangach sy'n deillio o'n hasesiad strwythuredig yn 2015.

[7] Y sefydliadau a gynhelir yw Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Chanolfan Ymchwil Clinigol y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

### Crynodeb o gynnydd yn erbyn argymhellion 2015

100 Roedd ein hasesiad strwythuredig eleni yn adolygu cynnydd yr Ymddiriedolaeth wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn 2015. Mewn adrannau cynharach o'r adroddiad hwn rydym wedi disgrifio'r cynnydd a wnaed ar argymhellion sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, craffu ar yr IMTP, newid rheolwyr, ac effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Nodir y cynnydd yn erbyn ein hargymhelliad ar waith partneriaeth yn Arddangosyn 8 isod.

101 Ein casgliad cyffredinol oedd bod yr Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i gyflawni 6 o'r 11 o argymhellion o 2015. O ran y 3 argymhelliad arall, mae'r Ymddiriedolaeth ar y trywydd cywir ond nid yw wedi cwblhau eu gweithrediad, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud rhywfaint o gynnydd ar 2 argymhelliad arall, ond mae angen rhagor o waith arnynt. Dylai'r argymhellion nad ydynt wedi'u cyflawni'n llawn barhau yng Nghynllun Gweithredu Archwilio'r Pwyllgor Archwilio.

### Gwaith partneriaeth

102 Y llynedd, fe wnaethom nodi bod yr Ymddiriedolaeth wedi sylweddoli pwysigrwydd gwella ei gwaith partneriaeth gyda staff, o ystyried graddau'r newid sefydliadol sy'n cael ei gynllunio ar gyfer y dyfodol. Arweiniodd hyn at argymhelliad penodol gennym ar waith partneriaeth, a ddisgrifir yn Arddangosyn 8.

### Arddangosyn 8: cynnydd ar argymhelliad 2015 ar bartneriaeth

Mae'r tabl yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhelliad 2015 ar bartneriaethau.

| Argymhelliad 2015 | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| 2015 R6b: Dylai'r Ymddiriedolaeth ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella effeithiolrwydd y Fforwm Partneriaeth Lleol (FfPLl) i sicrhau ymgysylltiad gwell gyda'r staff. | **Cwblhawyd – er ein bod yn gwneud argymhelliad newydd**<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cynllun gweithredu gwaith partneriaeth, yn hytrach na chynllun penodol ar gyfer y FfPLl. Serch hynny, mae pryderon yn parhau o ran effeithiolrwydd y FfPLl. Mae'r fforwm yn gallu profi lefelau presenoldeb gwael ymhlith yr aelodau, a dywedodd y rhai a gyfwelwyd wrthym fod cylch gwaith y fforwm yn aneglur, yn arbennig o ystyried cyflwyniad grwpiau partneriaeth ar lefel adrannol.<br>Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau cadarnhaol ar weithio mewn partneriaeth. Mae'r ymgyrch Be Connected yn ymgais rhagweithiol gan y Bwrdd i ymgysylltu â staff gweithredol drwy gynnal brecwastau, teithiau prynhawn a digwyddiadau eraill. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cynllunio arolwg o staff i gasglu eu safbwyntiau ar ddulliau o gynllunio'r IMTP.<br>Dangosodd ein harolwg o aelodau'r Bwrdd farn gadarnhaol am y ffordd mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu ar yr IMTP gyda staff ac arweinwyr clinigol ond roedd barn fwy cymysg am y ffordd maent yn ymgysylltu â chleifion a sefydliadau partner eraill. |

103 Mae perthynas Ymddiriedolaeth gyda'i chomisiynwyr wedi dod i'r amlwg fel risg allweddol yn asesiad strwythuredig eleni. Mae'r model TCS yn galw am gydweithredu helaeth gyda chomisiynwyr oherwydd mae'n hollbwysig bod y model gwasanaeth sy'n cael ei ddatblygu gan Felindre wedi'i alinio â model gwasanaeth cyrff iechyd eraill. Dywedodd uwch aelodau staff yn Felindre wrthym eu bod yn gweithio'n galetach nac erioed i ymgysylltu â chomisiynwyr am faterion amrywiol, gan gynnwys ymgysylltu i herio'r lefel o gyllid mae Felindre yn ei derbyn ar gyfer gwasanaethau canser. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd wrthym fod y berthynas gyda chomisiynwyr yn gwella, er bod pob parti yn cydnabod bod gwaith pellach i'w wneud i atgyfnerthu hyn.

### Olrhain gweithrediad argymhellion yr archwiliad

104 Yn ogystal ag adolygu'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael ag argymhellion asesiad strwythuredig 2015, buom hefyd yn ystyried effeithiolrwydd trefniadau'r Ymddiriedolaeth i reoli ac ymateb i argymhellion ein harchwiliad. Canfuom, er bod proses glir yn bodoli i olrhain gweithrediad yr argymhellion drwy Gynllun Gweithredu Archwilio'r Pwyllgor Archwilio, cafwyd problemau eleni a achoswyd yn sgîl peidio darparu diweddariadau ar gamau gweithredu rheoli i'r Pwyllgor Archwilio mewn dull amserol.

105 Bu cyfarfod Hydref 2016 y Pwyllgor Archwilio yn trafod problemau posibl gyda'r broses olrhain bresennol, yn ystod eitem ar yr agenda ar ein hadroddiad ar Gontractau. Canfu ein hadroddiad nad oedd yr Ymddiriedolaeth wedi gweithredu 22 o'n 23 o argymhellion blaenorol yn llawn, fodd bynnag, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi nodi bod pob un o'r argymhellion hyn wedi'u cwblhau a'u bod felly wedi'u tynnu o'r Cynllun Gweithredu Archwilio.

106 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi dechrau proses yn awr i adolygu ei ddull o olrhain archwiliadau. Mae'r adroddiad hwn yn argymell yr angen i wella'r broses o olrhain argymhellion archwilio, a chanolbwyntio ar y cam pan fydd argymhellion yn cael eu tynnu o'r Cynllun Gweithredu Archwilio. Y broses bresennol sy'n bodoli yn y Pwyllgor Archwilio yw canolbwyntio ar argymhellion sy'n goch, sy'n golygu eu bod yn hwyr yn cael eu gweithredu. Er bod y dull hwn yn bragmatig ac yn ceisio gwneud defnydd effeithiol o amser y pwyllgor, nid yw'r broses yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar y cam yn y broses pan fydd argymhellion yn cael eu tynnu'n llwyr o'r cynllun.

## Y gweithlu a datblygu sefydliadol

107 Fel rhan o'n gwaith yn 2016 bu i ni ystyried rhai agweddau hefyd ar ddatblygu'r gweithlu a datblygu sefydliadol. Ceir crynodeb o'n prif ganfyddiadau isod:

- cymeradwyodd y Bwrdd y Strategaeth Datblygu Sefydliadol (DS) yn fuan ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad diwethaf. Mae'r strategaeth yn ddatblygiad pwysig posibl i'r Ymddiriedolaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn awr drwy 'felinau trafod' pynciau a dywedodd y rhai a gyfwelwyd wrthym fod angen i'r Ymddiriedolaeth gynnal momentwm yn awr a gwneud mwy i ymgorffori gwerthoedd y strategaeth yn llawn yn y sefydliad.
- mae'r broses newydd o ail-ddilysu nyrsys wedi gwneud cynnydd da yn yr Ymddiriedolaeth.
- mae'n ymddangos bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud eleni yn gweithredu'r argymhellion o'n gwaith lleol ar Iechyd a Llesiant Staff. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ei digwyddiad gwobrau staff cyntaf ym Mehefin 2016 a derbyniodd Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol fframwaith corfforaethol ar gyfer iechyd a llesiant yn fuan ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad ar ein hasesiad strwythuredig blaenorol.
- derbyniodd yr Ymddiriedolaeth Safon Iechyd Corfforaethol Platinwm ym mis Hydref 2016.
- mae lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn parhau i fod yn uwch na tharged yr Ymddiriedolaeth, er gwaethaf ymagwedd at wraidd y mater gan yr Ymddiriedolaeth a gwaith craffu cymharol reolaidd ar lefel y Bwrdd a'r pwyllgorau.
- yn dilyn cyfnod o anawsterau parhaus, gwelwyd cynnydd yng nghanran y staff a dderbyniodd Adolygiad Perfformiad a Datblygiad o 59.7% yn Ebrill 2016 i 75.1% yn Awst 2016. Mae'r camau gweithredu wedi cynnwys lefel uwch o her gan gadeirydd Pwyllgor y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, datblygu cynllun gwella penodol a chynhyrchu a rhannu data cydymffurfio yn rheolaidd i amlygu meysydd sy'n achosi problemau at ddibenion eu gwella.
- mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau wedi trafod anawsterau'r Ymddiriedolaeth eleni yn sicrhau bod staff yn derbyn eu hyfforddiant gorfodol a statudol.
- yn ystod cyfweliadau ac arsylwadau, cawsom ein hysbysu ynghylch yr oedi yn y prosesau recriwtio, rhai mewnol a rhai allanol, a oedd yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff presennol yr Ymddiriedolaeth.

## Technoleg gwybodaeth a rheoli

108 Eleni, cynhaliodd ein Tîm Archwilio TG asesiad risg Technoleg Gwybodaeth a Rheoli (TGRh) yn Felindre. Ceir crynodeb o brif arsylwadau'r tîm isod.

109 **Rheoli risg:** Mae staff yr Ymddiriedolaeth yn adrodd risgiau i mewn i'r system DATIX, gyda CGF a GGC yn rheoli eu risgiau ar wahân. Mae polisi rheoli risgiau'r Ymddiriedolaeth yn hyrwyddo un dull cyson o reoli risgiau ar draws pob is-adran gwasanaeth a sefydliadau sy'n cael eu cynnal. Fodd bynnag, mae fformatau cofrestrau risg Technoleg gwybodaeth a rheoli yn wahanol yn y gwahanol is-adrannau. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a TGRh yn ymwybodol o'r gwahaniaethau hyn, a bwriedir cyflwyno dull mwy unffurf o adrodd/cofnodi risgiau TGRh.

110 **Adnoddau:** daeth ein hadolygiad Diagnostig yn 2015 o gapasiti TGCh a'r adnoddau i'r casgliad bod yr adnoddau TGCh presennol yn yr Ymddiriedolaeth yn llwyddo i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal iechyd ar y cyfan. Mae ein hasesiad risg eleni wedi amlygu'r risg y gallai adnoddau staff TGCh cyfyngedig yn y dyfodol, yn arbennig yn CGF, olygu na fydd anghenion defnyddwyr TG yn cael eu cyflawni.

111 **Arweinyddiaeth a strwythur:** nid oes gennym dystiolaeth bod strwythur adrannol TGRh yr Ymddiriedolaeth yn llesteirio cymorth clinigwyr neu lesiant cleifion, er bod yr Ymddiriedolaeth wedi profi anhawster wrth recriwtio mewn rhai meysydd allweddol. Gallai hyn olygu bod gan aelodau o staff faich gwaith anghynaliadwy.

112 Nodwyd newidiadau dros dro i'r arweinyddiaeth ym maes TG. Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwybodeg wedi dechrau rôl newydd yn y prosiect TCS. Mae rheolwr TGRh GGC wedi'i secondio i rôl Dirprwy Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gwybodeg yr Ymddiriedolaeth.

113 Ar hyn o bryd nid oes Uwch Swyddog Risgiau Gwybodaeth yn yr Ymddiriedolaeth, ond mae trafodaethau eisoes wedi'u cynnal i nodi un. Rydym yn gwneud argymhelliad ar y mater hwn.

114 **Cynllunio:** Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gynhyrchu cynllun Amlinellol Strategol TG. Mae cynllun amlinellol yr Ymddiriedolaeth yn cael ei ddatblygu yn awr, a bydd Strategaeth TG yn bwydo o hyn. Bydd yn rhaglen waith 3-5 mlynedd ar TGRh er mwyn alinio ag IMTP yr Ymddiriedolaeth. Bwriedir i hwn fod yn gynllun ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gyfan, erbyn diwedd blwyddyn galendr 2016.

115 **CANISC:** mae pryderon yn parhau ynglŷn â digonolrwydd un o brif systemau TG CGF. Nododd ein harsylwadau a'n cyfweliadau bod y pryderon ynglŷn â pherfformiad system CANISC yn parhau i fod yn bwnc trafod cyffredin. Mae yna Grŵp Prosiect Systemau Gwybodaeth Canser newydd i ddarparu'r ysgogiad i dywys y Systemau Gwybodaeth Canser i'r dyfodol a'r rhaglen a fydd yn disodli CANISC. Bydd y grŵp hwn yn goruchwylio'r gwaith o greu achos busnes i sicrhau cyllid ar gyfer tîm o weithwyr a fydd yn cwmpasu, treialu, creu prototeip a gweithredu (pan fo'n briodol) atebion TG i gyflawni gofynion gofynnol Gwybodeg Canser yn y dyfodol. Mae'r broses recriwtio yn debygol o fod yn ymarfer ar y cyd rhwng Gwasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru a'r Ymddiriedolaeth.

116 **Llywodraethu:** mae cynllun gweithredu llywodraethu ar gyfer CGF, ond nid ar gyfer GGC. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth ddiweddaru cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a TGRh er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r aelodaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o hyn ac mae'n gweithio i fynd i'r afael â hyn.

117 **Boddhad defnyddwyr:** nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gofyn am, nac wedi derbyn unrhyw adborth boddhad defnyddwyr am ei gwasanaethau TGRh.

# Atodiad 1

## Ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i argymhellion 2016

Mae'r tabl canlynol yn nodi argymhellion 2016 o'r asesiad strwythuredig ac ymateb y rheolwyr.

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu cynnwys ei adroddiadau cyllid i'r Bwrdd. Dylai'r adolygiad ystyried a yw'r wybodaeth monitro'r fantolen, crynodeb o'r risgiau a'u heffaith bosibl ar orwariant yn gysylltiedig â dadansoddiad o'r materion sylfaenol a fyddai'n darparu rhagor o wybodaeth. | Mwy o wybodaeth i'r Bwrdd am berfformiad ariannol. | Na | Ie | Cytunwyd. Cynhelir adolygiad mewn ymgynghoriad ag aelodau'r Bwrdd. | 30 Medi 2017 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwybodeg |
| A2 | Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod holl bwyllgorau'r Bwrdd yn cwblhau hunanasesiad blynyddol o'u heffeithiolrwydd. | Dysgu a rennir rhwng pwyllgorau i wella effeithiolrwydd pob pwyllgor. | Ie | Ie | Cwblheir arolwg blynyddol o effeithiolrwydd ar gyfer pob Pwyllgor a bydd rhaglen o arolygon blynyddoedd yn cael ei datblygu i'w gweithredu'n rheolaidd ac amserol. | 30 Medi 2017 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| A3 | Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cydymffurfio â holl ofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru ar adroddiadau tryloyw i'r cyhoedd. | Mwy o dryloywder cyhoeddus. | Na | Ie | Cymerwyd camau i sicrhau cydymffurfiaeth. | 31 Mawrth 2017 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A4 | Dylai'r Ymddiriedolaeth gynnal asesiad adlewyrchol o'i defnydd o sesiynau pwyllgor Rhan B ar gamera. Dylai'r asesiad ganolbwyntio ar eitemau ar yr agenda sy'n cael eu hystyried mewn sesiynau Rhan B ac a fyddai wedi bod yn fwy priodol ystyried yr eitemau yn gyhoeddus. | Sicrwydd bod busnes yr Ymddiriedolaeth yn agored a thryloyw lle bynnag y bo'n bosibl. | Na | Ie | Mae Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth yn ffurfio sail dros gyfiawnhau'r defnydd o gyfarfodydd Rhan B i sicrhau eu bod yn agored a thryloyw ym mhob agwedd o'u busnes.<br>Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu, a bydd hunanasesiadau'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn benodol. | 30 Medi 2017 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |
| A5 | Yn seiliedig ar hunanasesiad ac adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu, dylai'r Ymddiriedolaeth gynhyrchu cynllun gydag amserlen benodol ar gyfer egluro'r rôl ac atgyfnerthu effeithiolrwydd y pwyllgor. | Mwy o eglurder o rôl y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu ac effeithiolrwydd gwell y pwyllgor. | Ie | Ie | Mae Arolwg o Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn cael ei gynnal yn Chwefror 2017 o ran y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu. Bydd y canlyniad a'r canfyddiadau o'r arolwg hwn yn cael eu hystyried a bydd cynllun yn cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd. | 30 Medi 2017 | Cyfarwyddwr Meddygol/ Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A6 | Hwyluso presenoldeb gwell ac ymgysylltiad ehangach yng nghyfarfodydd pwyllgorau, yn ogystal â lleihau'r amser a'r gost sy'n gysylltiedig â theithiau staff, dylai'r Ymddiriedolaeth bennu targed penodol ar gyfer cynyddu'r defnydd o gyfleusterau fideo gynadledda. | Presenoldeb gwell mewn cyfarfodydd, ymgysylltiad gwell staff gyda'r busnes corfforaethol a lleihau amser teithio staff. | Na | Rhannol | Bydd yr Ymddiriedolaeth yn nodi'r holl gyfleusterau fideo gynadledda sydd ar gael yn yr Ymddiriedolaeth, creu cyfeiriadur a phwysleisio'r cyfleusterau sydd ar gael i gydweithwyr wrth drefnu cyfarfodydd.<br>Bydd pennu targed penodol a monitro ar draws yr Ymddiriedolaeth yn achosi problemau, ond bydd yr Ymddiriedolaeth yn asesu barn cydweithwyr ac argaeledd cyfleusterau fideo gynadleddau yn hunanasesiadau'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn y dyfodol a darparu gwybodaeth am ddefnydd yng nghofnodion ac Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor i'r Bwrdd. | 31 Mawrth 2018 | Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A7a | Dylai’r Ymddiriedolaeth adolygu ei phrosesau a’i chyfrifoldebau ar gyfer cau risgiau i lawr sy’n ymddangos ar y gofrestr risg gorfforaethol. | Sicrwydd bod y gofrestr risg yn cynnwys darlun cynhwysfawr o’r risgiau pwysicaf. | Na | Ie | Mae cyfeiriad penodol at risgiau caeedig eisoes ym mhapur cyflwyno’r Bwrdd ar gyfer yr adroddiad ar y gofrestr risg. Bydd adran ychwanegol yn cael ei hychwanegu at y gofrestr risg i gynnwys manylion risgiau sy’n cael eu cau i lawr gan yr EMB yn ystod y cyfnod i gynorthwyo proses graffu’r Bwrdd. | 31 Gorffennaf 2017 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Gwella Gwasanaethau |
| A7b | Dylai’r Ymddiriedolaeth ddefnyddio’r archwiliad mewnol sydd ar y gweill ar reoli risgiau a chael barn fanwl ar effeithiolrwydd uwchgyfeirio risgiau o lefel adrannol i lefel gorfforaethol. | Sicrwydd bod y Bwrdd yn ymwybodol o’r risgiau pwysicaf ar draws y sefydliad cyfan. | Ie | Ie | Disgwylir adroddiad yr Archwiliad Mewnol ar reoli risg yn ystod Gwanwyn 2017.<br>Bydd argymhellion o’r archwiliad yn cael eu hystyried a datblygir cynllun gweithredu i’w gyflwyno i’r Pwyllgor. | 31 Gorffennaf 2017 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Gwella Gwasanaethau |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A7c | Dylai'r Ymddiriedolaeth safoni fformat ei chofrestrau risg amrywiol, gan sicrhau bod elfennau arfer da pob cofrestr yn cael eu dosbarthu drwy'r sefydliad cyfan. | Dosbarthu arfer gorau ar gofrestrau risg drwy'r sefydliad cyfan. | Na | Ie | Cytunwyd ar y templed safonol yn 2015 a bydd yn cael ei adolygu ymhellach yn ystod 2017 a'i ail-lansio. Efallai y bydd amrywio rhywfaint ar fformat anghenion rhaglenni penodol oherwydd efallai y bydd anghenion gwahanol. Efallai y bydd rhai gwahaniaethau o'r fath yn dderbyniol, ond bydd angen eu cyfiawnhau. | 31 Gorffennaf 2017 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Gwella Gwasanaethau |
| A8 | Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu cylch gwaith a chylch gorchwyl y Fforwm Partneriaeth Lleol, o ystyried bod grwpiau partneriaeth lefel is-adrannol yn darparu fforwm gwell mae'n debyg ar gyfer ymgysylltu ag undebau. | Gwaith partneriaeth gwell rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i staff. | Na | Ie | Mae Cylch Gorchwyl y Fforwm Partneriaeth Lleol yn destun adolygiad yn awr gan staff y gweithlu a chydweithwyr Cynrychiolwyr Staff. | 31 Mai 2017 | Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu |

| Cyf | Argymhelliad | Canlyniad/budd a fwriedir | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Derbyniwyd (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A9 | Dylai'r Pwyllgor Archwilio atgyfnerthu ei ddull o graffu ar ymatebion rheolwyr i adroddiadau archwilio, i sicrhau bod y camau gweithredu arfaethedig yn berthnasol ac y byddant yn datrys y materion y cyfeirir atynt yn yr argymhellion. | Sicrwydd bod y materion sy'n cael eu codi yn yr adroddiadau archwilio yn cael eu trin a'u trafod yn llawn. | Ie | Ie | Yr arweinwyr i sicrhau bod yr argymhellion yn yr adroddiadau drafft yn rhai y gellir eu cyflawni, a bod ymatebion rheolwyr yn cael eu targedu'n briodol er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion yr archwiliad.<br>Yna gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio graffu ar yr argymhellion ac ymatebion y rheolwyr yn y cyd-destun hwn ar adeg derbyn yr adroddiad.<br>Dylid ymgorffori'r dull hwn o fewn y flwyddyn galendr. | 31 Rhagfyr 2017 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwybodeg |
| A10 | Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod ganddi Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth. | Cyfrifoldebau arweinyddiaeth clir ar gyfer llywodraethu gwybodaeth. | Na | Ie | Cytunwyd. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn nodi, cadarnhau a chofnodi'r cyfrifoldeb hwn yn ffurfiol. | 31 Mai 2017 | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwybodeg |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru